

[Clawr Blaen]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant mewn Gofal

Mai 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gellir gweld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol

www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau caled o'r ddogfen hon gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149

Ffacs: 029 2089 8021

E-bost: Linda.Heard@wales.gsi.gov.uk

Tu mewn y Clawr Blaen

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant mewn Gofal

Mai 2010

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Penodwyd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru ac adrodd yn ôl ar y materion hynny.

Yn bennaf, gall y Pwyllgor archwilio gwariant, gweinyddiad a pholisi Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig ac ystyried adroddiadau Comisiynydd Plant Cymru.

Yn aml, nid yw oedolion yn cymryd barn plant a phobl ifanc o ddifrif. Fel gwleidyddion, ein cyfrifoldeb ni yw annog plant a phobl ifanc i leisio eu barn ac i ninnau wrando arnynt. Sefydlwyd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i helpu i wneud hynny.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 16 Hydref 2007 pan gafodd cynnig i'w sefydlu ei gymeradwyo mewn Cyfarfod Llawn. Bydd yn bodoli drwy gydol y Trydydd Cynulliad.

Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig yn Rheol Sefydlog 21. Mae'r rhain ar gael yn www.cynulliadcymru.org.

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion y Pwyllgor	7
Cyflwyniad	13
Cyflwyniad	13
Cylch Gorchwyl	14
Pam yr oeddem am archwilio'r trefniadau ar gyfer lleoli plant a phobl ifanc yn y system derbyn gofal?	15
Cefndir: y system leoli yng Nghymru	17
Pam fod plant a phobl ifanc yn mynd i leoliadau derbyn gofal?	17
Faint o blant a phobl ifanc sydd mewn lleoliadau derbyn gofal yng Nghymru?	17
Beth yw'r system leoli yng Nghymru?	17
Ystyriaethau allweddol	19
1. Y broses leoli gychwynnol	20
Canlyniadau cynllunio lleoliadau yn effeithiol.....	20
Cynllunio lleoliadau yn aneffeithiol	21
Asesiadau Craidd.....	22
Dewis o Leoliadau.....	24
Lleoliadau Brys	26
Canfod lleoliadau a'u comisiynu	29
Gwerth yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR)	29
Problemau o ran defnyddio'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR).....	30
Pryderon o ran diben yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant	32
Pwysau Ariannol	35
2. Rhannu Gwybodaeth	39
Rhannu gwybodaeth â gofalwyr maeth.....	39

Yr hyn sy'n rhwystro gwybodaeth rhag cael ei rhannu gyda gofalwyr	40
Mynd i'r afael â'r hyn sy'n rhwystro gwybodaeth rhag cael ei rhannu â gofalwyr.....	42
Rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau'r llywodraeth.....	48
3. Adolygu Lleoliadau.....	52
Rôl y Swyddogion Adolygu Annibynnol	52
Ymgysylltu'n effeithiol â phlant sy'n derbyn gofal a gofalwyr maeth wrth adolygu lleoliadau.....	55
4. Cymorth i blant a phobl ifanc, gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol.....	59
Gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc yn ystod y broses leoli.....	59
Gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc ar ôl eu cyfnod mewn lleoliad derbyn gofal	64
Cymorth i ofalwyr maeth.....	66
Trin gofalwyr maeth fel 'gweithwyr' proffesiynol	67
Swyddogaethau a chyfrifoldebau gofalwyr maeth o ddydd i ddydd	69
Ailystyried cytundebau ysgrifenedig sy'n ymwneud â swyddogaethau a chyfrifoldebau dyddiol.....	71
Cydnabyddiaeth.....	72
Cymorth a hyfforddiant	73
Cymorth i weithwyr cymdeithasol	75
5. Materion eraill sy'n deillio o leoli plant a phobl ifanc mewn lleoliadau derbyn gofal.....	81
Gwasanaethau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal	81
Lleoliadau y tu allan i'r sir.....	83
Tystion	88
Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	92

Rhagair y Cadeirydd

Darparu gofal i'n plant a'n pobl ifanc na all eu teuluoedd ofalu amdanynt, am ba bynnag reswm, yw un o swyddogaethau sylfaenol cymdeithas gefnogol, waraidd. Mae'n ymwneud â chymdeithas gyfan yn penderfynu bod ganddi gyfrifoldeb cyffredinol dros fod yn rhiant i'r plant hyn.

Mae gan bob plentyn a gaiff ei roi mewn lleoliad derbyn gofal, anghenion gwahanol. Mae'r system derbyn gofal yn cynnal amrywiaeth eang o leoliadau, fel i blant anabl sy'n cael gofal seibiant wedi'i gynllunio neu blant mewn lleoliadau hirdymor neu blant a gaiff eu lleoli mewn gofal maeth dwys yn hytrach na'u hanfon i'r carchar. Ond, waeth beth fo'r math o leoliad, un o negeseuon cyson yr ymchwiliad hwn oedd ei bod yn bosibl i leoliadau derbyn gofal newid bywydau er gwell, gan helpu plant a phobl ifanc i oresgyn problemau'r gorffennol a chyflawni talentau cudd.

Fodd bynnag, mae'r ymchwiliad hwn hefyd wedi tynnu sylw at nifer o feysydd yng Nghymru lle y gellir gwella'r y gellir gwella'r system o roi plant mewn lleoliadau derbyn gofal. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i weithredu ar argymhellion yr adroddiad hwn i fynd i'r afael â'r meysydd sy'n peri'r pryder mwyaf. Mae angen i weithwyr cymdeithasol, sy'n gwneud penderfyniadau am leoliadau plant, yn aml mewn amgylchiadau anodd, gael ein cefnogaeth barhaus i ganfod anghenion ein plant, a sicrhau y cânt eu diwallu. Mae'r feirniadaeth o weithwyr cymdeithasol, mewn achosion unigol, yn pardduo'r mwyafrif ymrwymedig o bobl broffesiynol, a chuddio'r angen am welliant gwirioneddol yn yr holl system leoliadau.

Bu dau newid i aelodaeth y Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn a hoffwn gyfleu fy niolch i Christine Chapman AC a Lynne Neagle AC am eu gwaith fel rhan o'r Pwyllgor. Hoffwn gyfleu fy niolch, hefyd, i Ann Jones AC a fu'n gweithredu fel Aelod dirprwyedig o'r Pwyllgor ar fwy nag un achlysur yn ystod yr ymchwiliad.

Rwyf yn ddiolchgar, hefyd, i bawb a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor ac a fu o gymorth i ni yn ystod yr ymchwiliad. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r gwahanol grwpiau o bobl ifanc a oedd yn fodlon trafod eu profiadau o'r system derbyn gofal yng Nghymru. Pwysleisiodd eu

tystiolaeth pa mor bwysig yw sicrhau bod yr holl benderfyniadau yn y system derbyn gofal yn seiliedig ar ddarparu ar gyfer lles y plant hyn sydd mor hawdd i'w niweidio, yn hytrach na gadael i'r penderfyniadau gael eu dylanwadu gan ystyriaethau arbed arian tymor byr. Oherwydd, yn y tymor hir, er budd ein cymdeithas, rhaid i ni sicrhau bod anghenion ein plant yn ganolog i'r penderfyniadau a wnawn.

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cydfynd â'r argymhellion:

Y Broses Leoli Gychwynnol

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru i ganfod pa mor aml nad yw'r 'Cynllun Gofal a'r Cofnod Gwybodaeth Hanfodol Rhan 2' yn cael eu cwblhau o fewn 14 niwrnod i leoli plentyn neu berson ifanc mewn lleoliad derbyn gofal, a chymryd y camau priodol i fynd i'r afael ag achosion niferus, yn ôl yr angen. 28

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn trafodaeth ag awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn cynhyrchu gwybodaeth reolaidd a manwl o ran y tueddiadau yn y mathau o leoliadau a'r meysydd diffygiol, a sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd. 32

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwerthusiad o effeithiolrwydd y broses leoliadau, yn cynnwys y defnydd o'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant, a nodi gwelliannau. 35

Argymhelliad 4. Fel rhan o'r gwaith o hwyluso'r gwerthusiad y cyfeirir ato yn Argymhelliad 3, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gall gofawyr maeth annibynnol gyfleu eu sylwadau o ran effeithiolrwydd y broses leoli, gan gynnwys yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant. 35

Argymhelliad 5. Fel rhan o'r gwaith o hwyluso'r gwerthusiad y cyfeirir ato yn Argymhelliad 3, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gall darparwyr gofal maeth annibynnol gyfleu eu sylwadau o ran effeithiolrwydd eu cyfathrebu ag awdurdodau lleol, gan gynnwys cyfathrebu drwy'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant, ond heb fod yn gyfyngedig iddo. 35

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau statudol sy'n amlinellu na ddylai awdurdodau lleol fod yn ystyried costau wrth lunio rhestr fer o leoliadau posibl ar gyfer plentyn. Dylai'r canllawiau hyn ddatgan yn glir mai dim ond er mwyn gwahaniaethu rhwng lleoliadau bosibl a allai gynnig canlyniadau addas i'r plentyn dan sylw y dylai'r awdurdod lleol ystyried costau. 38

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol, sy'n argymell eu bod yn rhoi ffurflenni cyffredin i ddarparu ofalwyr maeth, yn nodi'r cwestiynau y mae'n awgrymu y dylai'r gofalwr eu gofyn cyn cytuno i ddarparu lleoliad. 44

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau y caiff gofalwyr maeth eu hystyried yn weithwyr proffesiynol yn y gweithlu gofal plant, gan gynnwys cynnal trafodaethau â Chyngor Gofal Cymru tuag at alluogi gofalwyr maeth i ddod o fewn ei gylch gwaith fel Cyngor Sgiliau Sector. 45

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol, yn argymell eu bod yn darparu rhestr wirio rhannu gwybodaeth a siart llif i'w gweithwyr cymdeithasol, ynghyd â'r cwestiynau y maent yn eu hawgrymu y dylai ymarferwr eu hystyried wrth benderfynu rhannu gwybodaeth gyda gofalwyr maeth ai peidio. 47

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y rhestr wirio rhannu gwybodaeth, y cyfeirir ati yn Argymhelliad 9, yn cynnwys cyfeiriadau at ddulliau priodol o rannu gwybodaeth â phlant gofalwyr maeth. 48

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i dreialu ffyrdd mwy effeithiol o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau'r llywodraeth, drwy ymgysylltu ag ardaloedd arloesol sy'n cyflwyno'r model gwasanaethau cymorth integredig i deuluoedd. 50

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau statudol i bob awdurdod lleol, Ymddiriedolaeth GIG a Bwrdd Iechyd Lleol a fydd yn eu galluogi i gynhyrchu protocolau

ysgrifenedig rhwng asiantaethau, sy'n ymdrin â: chasglu cydsyniad am asesiadau iechyd, rhannu a chynnal dogfennau personol a dogfennau gwybodaeth iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal; a rhannu gwybodaeth bersonol rhwng asiantaethau at ddibenion ymgymryd â chyfrifoldebau ar y cyd. 50

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol i sicrhau bod dulliau monitro/rheoli/sicrhau ansawdd ar waith wrth gynhyrchu'r protocolau y cyfeirir atynt yn argymhelliad 12, gan gynnwys adolygiadau rheolaidd rhwng yr asiantaethau o ystadegau, perfformiad a data canlyniadau, a'u harchwilio yn erbyn safonau y cytunwyd arnynt o ran prosesau iechyd a hyfforddiant gofal iechyd. 50

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu ei gwaith sy'n ymwneud â rhoi dyletswyddau statudol i Swyddogion Adolygu Annibynnol i gadw llygad ar y gwaith o weithredu'r penderfyniadau a wneir fel rhan o'r gwaith o adolygu lleoliadau. 55

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol, yn nodi y dylai lleoliad y cyfarfod adolygu lleoliad gael ei benderfynu, fel arfer, gan y plentyn y mae ei leoliad derbyn gofal yn cael ei adolygu, gyda'r cymorth priodol. 58

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol, yn nodi mai'r plentyn y mae ei leoliad derbyn gofal yn cael ei adolygu, ddylai benderfynu pwy fydd yn y cyfarfod, gyda'r cymorth priodol. 58

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol, yn nodi y dylai ymatebion plant a phobl ifanc i bapurau ymgynghori, ac a gaiff eu dosbarthu cyn y cyfarfod adolygu lleoliad, gael eu darllen gyda digon o amser cyn y cyfarfodydd er mwyn dylanwadu ar leoliad y cyfarfod adolygu, a'r rhai fydd yn bresennol. 58

Argymhelliad 18. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol, er

mwyn sicrhau bod papurau ymgynghori a gaiff eu dosbarthu i blant a phobl ifanc cyn eu cyfarfod adolygu lleoliad yn addas ar gyfer amgylchiadau unigol y plentyn dan sylw. 58

Argymhelliad 19. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'i gwaith tuag at lunio deddfwriaeth i sicrhau ei bod yn ofyniad cyfreithiol bod pawb sy'n gweithio ym maes lles plant, a dyfodol plant, yn gwrando ar eu lleisiau hwy. 61

Argymhelliad 20. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau statudol, sy'n nodi bod eiriolwr y plentyn yn cael ei hysbysu pan fydd cyfarfod adolygu lleoliad yn cael ei drefnu er mwyn rhoi digon o amser i: wrando ar farn y plentyn neu'r person ifanc am y lleoliad, a chynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i gwblhau'r ymatebion i bapurau ymgynghori. 63

Argymhelliad 21. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau statudol i sicrhau bod awdurdodau lleol, fel arfer, yn cynnal cyfweiliadau ar wahân gyda'r bobl ifanc sy'n gadael y system derbyn gofal yng Nghymru; eu gofalwyr maeth; a'u brodyr a chwiorydd maeth. 66

Argymhelliad 22. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch fawr i hwyluso recriwtio gofalwyr maeth. 66

Argymhelliad 23. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn egluro a diwygio'r canllawiau presennol, lle y mae angen hynny, sy'n ymwneud ag awdurdod gofalwyr maeth i wneud penderfyniadau rhianta dyddiol, gan gynnwys mewn cysylltiad ag aros dros nos a gwibdeithiau'r ysgol. 71

Argymhelliad 24. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol i sicrhau y caiff cytundebau gofal maeth eu hadolygu'n flynyddol. 72

Argymhelliad 25. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn hwyluso rhyw fath o gydnabyddiaeth i ofalwyr maeth hyfforddedig nad oes ganddynt blentyn ar leoliad maeth dros dro. 73

Argymhelliad 26. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys sefydliadau gofal maeth, gofalwyr maeth a phlant maeth wrth ddatblygu ac ehangu'r ddarpariaeth ac argaeledd llinell gyngor gofal maeth, gan gynnwys gwasanaethau ffôn, e-bost a thestun ar gyfer gofalwyr maeth. 75

Argymhelliad 27. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar ffyrdd o herio cynrychioliadau'r cyfryngau ac argraffiadau'r cyhoedd o weithwyr cymdeithasol, fel eu bod yn cynnig amgylchedd lle mae ffocws cadarnhaol ar yr hyn a gaiff ei gyflawni gan weithwyr cymdeithasol a'r cyfraniadau a wneir ganddynt. 77

Argymhelliad 28. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd rhan mewn trafodaethau â Chyngor Gofal Cymru ac awdurdodau lleol, tuag at greu a threalu swydd Ymgynghorydd Gwaith Cymdeithasol. Rhagwelwn y byddai'r swydd hon yn cael y gydnabyddiaeth a'r parch priodol, y byddai'n cynnwys mentora cydweithwyr iau, ond y ffocws pennaf fyddai gwaith proffesiynol gyda phlant a phobl ifanc. 79

Argymhelliad 29. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r system derbyn gofal, gyda'r bwriad o ganfod a all rhai mathau o wybodaeth gael eu cofnodi gan gydweithwyr gweinyddol, yn hytrach na'r gweithwyr cymdeithasol eu hunain. 80

Argymhelliad 30. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod gan y gweithwyr cymdeithasol, fel rhan o'u hyfforddiant, gyfle i siarad â meibion a merched grwpiau gofalwyr maeth. 80

Argymhelliad 31. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau yn sefydlu y dylai pob Bwrdd GIG a Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru enwebu Meddyg Plant sy'n Derbyn Gofal Chymdeithas Mabwysiadu a Meithrin Prydain (BAAF) / Coleg Pediatrig ac Iechyd Plant Brenhinol (RCPCH) o fewn amser diogelu penodol i gynnig yr ymgynghoriad clinigol angenrheidiol a rheoli'r seilwaith o systemau, prosesau a gweithdrefnau gwybodaeth a thrafodaethau, gwaith archwilio a monitro rhwng asiantaethau. 83

Argymhelliad 32. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau, yn sefydlu y dylai pob Bwrdd GIG a phob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru gael nyrs arbenigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. 83

Argymhelliad 33. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol i sicrhau bod dulliau clir, archwiliadwy ac effeithiol a llinellau atebolrwydd clir ar gyfer trosglwyddo gofal, gan gynnwys gofal iechyd, pan gaiff plentyn ei leoli y tu allan i'r sir, ac ar draws unrhyw ffiniau gwasanaethau mewnol. 87

Cyflwyniad

“It is rewarding and the outcomes are fantastic. You can help children... bring them into your family and give them the love and care they need.”¹

- Ms Sophie Hunt, Grŵp Meibion a Merched Gofalwyr Maeth

1. Ym mis Mai 2009, cyhoeddwyd ein bod am gynnal ymchwiliad yn canolbwyntio ar y trefniadau ar gyfer lleoli plant a phobl ifanc mewn gofal yng Nghymru.

2. Clywsom dystiolaeth lafar ar gyfer yr ymchwiliad hwn mewn cyfarfodydd rhwng 6 Mehefin 2009 ac 8 Rhagfyr 2009, ynghyd â thystiolaeth ysgrifenedig. Cawsom gyfle, hefyd, i gwrdd yn anffurfiol â dau grŵp o bobl ifanc sydd â phrofiad o'r system derbyn gofal yng Nghymru, gyda'r cyfarfodydd hyn yn digwydd yn y Senedd ac ym Mhontypridd.

3. Yn ystod y broses hon, cafwyd tystiolaeth gan amrywiaeth eang o dystion, yn cynnwys:

- Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol;
- cynrychiolwyr llywodraeth leol;
- ymarferwyr meddygol;
- sefydliadau a rhwydweithiau maethu;
- asiantaethau arolygu;
- sefydliadau'r sector gwirfoddol;
- a phlant a phobl ifanc, yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o'r system derbyn gofal yng Nghymru, ac fel plant biolegol gofalwyr maeth

4. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n holl dystion am gyfrannu at yr ymchwiliad hwn.

¹ Cofnod y Trafodion, Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Y Cofnod), Paragraff (Para) 160, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 8 Rhagfyr 2009.

Cylch Gorchwyl

5. Ym mis Mai 2009, cytunwyd i ymchwilio i effeithiolrwydd systemau yng Nghymru ar gyfer lleoli plant a phobl ifanc mewn gofal, yn cynnwys:

- y broses cynllunio, dynodi ac adolygu lleoliadau maethu unigol ac atebolrwydd am reoli lleoliadau a lles plant sy'n derbyn gofal;
- gweithrediad y system gomisiynu ar gyfer lleoli plant ag asiantaethau maethu a'i heffaith ar y dewis o leoliadau ac ar rannu gwybodaeth ynghylch plant sy'n derbyn gofal;
- cynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau am eu lleoliadau;
- effeithiolrwydd yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant a'r systemau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau;
- darparu gwybodaeth amserol a pherthnasol i ofalwyr maeth ac asiantaethau maethu ar gefndir a hanes y plentyn neu'r person ifanc sy'n cael ei leoli a'r rhesymau am y lleoliad;
- rhannu gwybodaeth sy'n bersonol, yn gyfrinachol neu wybodaeth nas profwyd am blant sy'n derbyn gofal;
- lleoli plant sy'n anabl, rhai o deuluoedd pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig a phlant ceiswyr lloches heb gwmni;
- effeithiolrwydd polisiâu a chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar leoli plant sy'n derbyn gofal â gofalwyr maeth.

Pam yr oeddem am archwilio'r trefniadau ar gyfer lleoli plant a phobl ifanc yn y system derbyn gofal?

6. Mae lleoli plant a phobl ifanc gyda gofalwyr maeth yn broses gymhleth iawn. Mae llawer o blant a phobl ifanc a gaiff eu lleoli gyda gofalwyr yn hawdd iawn i'w niweidio ac mae ganddynt anghenion sylweddol sy'n golygu bod gofalu amdanynt yn her.

7. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi clywed am nifer o bryderon yn cael eu codi ynghylch y broses o leoli plant a phobl ifanc yng Nghymru mewn lleoliadau derbyn gofal, yn arbennig o ran dethol y lleoliadau priodol ac ansawdd y wybodaeth a roddir i ofalwyr. Mae'r ffactorau hyn yn dylanwadu ar lwyddiant ac addasrwydd y lleoliadau hyn.

8. Roedd achos diweddar ym Mro Morgannwg² hefyd yn tanlinellu pa mor bwysig yw rhoi gwybodaeth gywir i ofalwyr, er bod yr achos penodol hwn yn ymwneud â lleoli oedolyn ifanc yn hytrach na phlentynt.

9. Ein barn, hefyd, oedd, ei bod yn amserol cynnal ymchwiliad i drefniadau lleoli plant a phobl ifanc mewn gofal, fel rhan o'n gwaith o ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fframwaith strategol³ ar ddewis a sefydlogrwydd lleoliadau yn 2004 ar gyfer awdurdodau lleol ac asiantaethau partner. Roedd y fframwaith hwn yn hybu adrannau gwasanaethau cymdeithasol i ddatblygu strategaethau lleoliadau cynhwysfawr, ac yn pwysleisio dydweithio a chydweithredu rhwng asiantaethau yn y sector statudol ac anstatudol. Sefydlwyd Grŵp Gweithredu i gyflwyno'r argymhellion yn y fframwaith.

10. Roeddem yn ymwybodol, hefyd, bod yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR) wedi cael ei sefydlu yn ystod y blynyddoedd diweddar, ac mae'n gweithredu cronfa ddata i alluogi awdurdodau lleol i ddod o hyd i leoliadau yng Nghymru ac mewn mannau eraill a'u comisiynu. Nod y Comisiwn yw gweithredu fel ffynhonnell gwybodaeth ganolog ar leoliadau plant ac i'r wybodaeth

² BBC Cymru, 5 Mawrth 2009, *Council knew of abuse teen's past*: <http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/7926122.stm>

³ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Dewis a Sefydlogrwydd: Datblygu ystod o leoliadau o ansawdd i blant ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru* (2004)

gael ei defnyddio i wella arferion comisiynu. Mae'r Comisiwn yn fenter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC).

11. Dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol hefyd wrthym:

“I am delighted that the committee is undertaking this review. I very much appreciate the advice that the committee will want to give on this important issue.”⁴

⁴ Y Cofnod, Para 168, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

Cefndir: y system leoli yng Nghymru

Pam fod plant a phobl ifanc yn mynd i leoliadau derbyn gofal?

12. Gall plant a phobl ifanc gael eu rhoi mewn lleoliadau derbyn gofal am lawer o resymau gwahanol. Weithiau, gall hyn fod am na all eu rhieni ofalu amdanynt yn iawn a phenderfynir ei bod yn well iddynt fyw rywle arall. Gall hyn ddigwydd hefyd os yw rhiant y plentyn yn wael, yn gorfod mynd i'r ysbyty, neu'n marw. Nid oedd rhieni rhai plant a phobl ifanc eraill sydd mewn lleoliadau derbyn gofal yn gallu ymdopi, ac roedd rhieni rhai eraill yn eu hesgeuluso neu'n eu cam-drin.

Faint o blant a phobl ifanc sydd mewn lleoliadau derbyn gofal yng Nghymru?

13. Yn ôl yr Uned Ddata Llywodraeth Leol⁵, roedd 4,704 o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2009, ac roedd 3,632 (tua 77 y cant) mewn lleoliadau gofal maeth. Y categori mwyaf o angen ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd yn dechrau derbyn gofal yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 oedd "camdriniaeth neu esgeulustod", sef 54 y cant o'r cyfanswm. O'r 4,704 o blant sy'n derbyn gofal, cafodd 10 y cant dri neu fwy o leoliadau derbyn gofal yn ystod y flwyddyn 2008-09.

Beth yw'r system leoli yng Nghymru?

14. Gwasanaethau maethu awdurdodau lleol, ac asiantaethau gwirfoddol sy'n lleoli plant a phobl ifanc eu hunain, sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff pob plentyn neu berson ifanc a gaiff ei leoli mewn gofal maeth ei gydweddu'n ofalus â gofalwr sy'n gallu diwallu ei anghenion a aseswyd.

15. O ran yr asiantaethau sy'n darparu gofalwyr maeth i awdurdodau lleol, yr asiantaethau hynny sy'n gyfrifol am sicrhau mai dim ond gofalwr sy'n cydweddu ag anghenion y plentyn sy'n cael ei gynnig ar gyfer plentyn y mae'r awdurdod lleol yn chwilio am ofalwr ar ei gyfer.

⁵ [Uned Ddata Llywodraeth Leol](#), *Plant sy'n Derbyn Gofal (SSDA903)*

16. Wrth gydweddu plant a phobl ifanc â gofalwyr, disgwylir i awdurdodau sydd â chyfrifoldeb ystyried eu hanghenion diwylliannol, hiliol, ethnig, ieithyddol a chrefyddol.

17. Y bwriad yw y caiff y gwaith cydweddu hwn ei gyflawni drwy rannu gwybodaeth ac ystyriaethau sy'n cynnwys yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol, y plentyn a'r teulu a'r gofalwyr posibl, eu teuluoedd hwy ac unrhyw blant neu bobl ifanc eraill sydd wedi'u lleoli.

18. Bwriedir i gytundebau lleoliadau maeth ysgrifenedig gynnwys cyfeiriadau penodol at elfennau o'r gofynion cydweddu a ystyriwyd wrth gytuno i'r lleoliad a nodi unrhyw feysydd lle mae angen cymorth ychwanegol ar rieni maeth i gau'r bylchau cydweddu rhwng y plentyn a'r gofalwr.

19. Disgwylir i awdurdodau sydd â chyfrifoldeb roi unrhyw hyfforddiant ychwanegol, unrhyw gymorth neu unrhyw wybodaeth i'r rhieni maeth ar gyfer anghenion penodol y plentyn.

Ystyriaethau allweddol

20. Ar ôl cynnal ein hymchwiliad gallwn, bellach, gyflwyno cyfres o gasgliadau ac argymhellion ar sail tystiolaeth i Lywodraeth Cymru, ac i eraill sy'n berthnasol. Ceir crynodeb o'n hargymhellion rhwng tudalennau 9 a 14.

21. Roedd y tystion yn cytuno bod y system derbyn gofal yng Nghymru yn chwarae rhan sylfaenol wrth gynorthwyo amrywiaeth eang o blant a phobl ifanc. Soniodd llawer o'r tystion am y gwerth y gall lleoli effeithiol ei gynnig, a dywedodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC):

“The large majority of looked-after children say that, generally, their experience of being looked after is very positive.”⁶

22. Yn yr un modd, dywedodd y Grŵp Meibion a Merched Gofalwyr Maeth:

“It is very rewarding. They [children and young people being placed into care] may arrive in a state, but you can see how well they have done when they move on and how much better off they are.”⁷

23. Roedd y tystion yn cytuno hefyd ei bod yn hanfodol y caiff lleoliadau yn y system derbyn gofal eu gwneud mor effeithiol â phosibl, er mwyn cydweddu anghenion plant a phobl ifanc â gofalwyr maeth arbennig neu wasanaethau eraill. Fodd bynnag, soniodd y tystion, hefyd, am yr amrywiaeth eang o bryderon am y broses leoli bresennol a allai gyfyngu ar effeithiolrwydd y lleoliadau. Soniodd y tystion hefyd am nifer o bryderon ynghylch effaith y broses leoli ar wasanaethau eraill, fel gwasanaethau iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

24. Rydym wedi nodi 5 maes sy'n peri pryder, a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein hymchwiliad, a gwelir y manylion isod:

- Y broses leoli gychwynnol;

⁶ Y Cofnod, Para 182, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

⁷ Y Cofnod, Para 150, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 8 Rhagfyr 2009

- Rhannu gwybodaeth;
- Adolygu lleoliadau;
- Cymorth i blant a phobl ifanc, gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol;
- Casgliadau ehangach y lleoliadau.

1. Y broses leoli gychwynnol

25. Yn yr adran hon, rydym wedi ystyried y dystiolaeth a gafwyd yn yr ymchwiliad hwn yn ymwneud â chynllunio lleoliad, ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n mynd i leoliadau derbyn gofal a'r prosesau a ddefnyddir i ganfod a chomisiynu lleoliadau.

26. Roedd llawer o dystiolaeth yr ymchwiliad hwn yn canolbwyntio ar brofiadau plant a phobl ifanc a osodir mewn gofal maeth, yn hytrach na gofal preswyl. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gan blant a phobl ifanc unigol anghenion penodol y gellir ymdrin â hwy yn well gan leoliadau preswyl yn hytrach na gofal maeth. Credwn fod lleoliadau preswyl yn rhan o amrywiaeth o ddewis ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, yn hytrach na'r dewis olaf, gan gadw mewn cof y dystiolaeth gan Barnardo's Cymru:

“The outcomes for children are often better within families, but... there is still a place for high-quality residential care, especially for children with sexually harmful behaviour or older children with particularly challenging behaviour who might not be able to fit into a family environment.”⁸

Canlyniadau cynllunio lleoliadau yn effeithiol

27. Waeth beth fo ffurf y lleoliad, mae'n annhebygol na fydd unrhyw blentyn a gaiff ei roi yn y system derbyn gofal yn teimlo bod hyn yn brofiad ysgytwol ar ryw lefel. Fodd bynnag, mae dystiolaeth a gafwyd gan dystion yn awgrymu'n glir y gall lleoliadau a gynlluniwyd yn dda, lle roedd y cymorth a ddarparwyd yn cydweddu ag anghenion y plentyn, sicrhau nad yw'n dioddef gormod, a gallai gynyddu'r

⁸ Y Cofnod, Para 92, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

posibilrwydd y gall y lleoliadau fod yn hir ac yn effeithiol. Er enghraifft, dywedodd Ymddiriedolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru (TACT) wrthym:

“the more that children are prepared and placements are planned, the greater the chance there is for success with that placement working and lasting... There is some practice out there where there are planned placements and we know that there is greater success with that.”⁹

28. Yn wir, roedd y dystiolaeth a gafwyd gan y tystion yn awgrymu'n glir y byddai cynllunio lleoliadau yn well o fudd i blant sy'n derbyn gofal a darparwyr gofal. Dywedodd Plant yng Nghymru fod cynllunio da a lleoliadau effeithiol o ganlyniad i hynny o fudd ariannol i gymdeithas gyfan, gan nodi bod methiant o ran cynllunio yn golygu:

“resources are spent on breakdowns and then provision becomes more and more expensive for society.”¹⁰

29. Er mwyn sicrhau y caiff lleoliadau eu cynllunio'n effeithiol, mae'n werth nodi bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn dweud mai barn llawer o awdurdodau lleol yw:

“early planning is about pre-planning. Most authorities have now set up pre-admission multi-agency panels to begin to plan and to work on ensuring that the child who needs to come into the system is brought in.”¹¹

Cynllunio lleoliadau yn aneffeithiol

*“They moved me 11 times in 7 years”*¹²

- Glen, person ifanc sydd â phrofiad o'r system derbyn gofal yng Nghymru.

30. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gan y tystion yn awgrymu na chaiff y lleoliadau eu cynllunio'n effeithiol, na gofalwyr yn cael eu cydweddu'n effeithiol â'r plant a'r bobl ifanc, a gallai hyn gyfyngu ar effeithiolrwydd y lleoliad, gan arwain at dorri'r lleoliad hwnnw. Dywedodd Plant yng Nghymru:

⁹ Y Cofnod, Para 95, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

¹⁰ Y Cofnod, Para 22, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

¹¹ Y Cofnod, Para 63, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

¹² Cyfarfod â phobl ifanc i drafod lleoli plant mewn gofal, 16 Tachwedd 2009, Tud. 1.

“People come forward, and they want to foster. They have their own families, and have children of different ages within their family, perhaps, so they have an idea of what sort of fostering they want to offer. What seems to happen is that we try to put children who do not necessarily fit into what they want into their homes and then we are surprised that the placements break down.”¹³

31. Roedd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod wrthym bod y ffaith bod lleoliadau'n torri i lawr o bryd i'w gilydd yn peri pryder, a bod hyn yn golygu y caiff rhai plant a phobl ifanc sydd yng ngofal awdurdodau lleol eu rhoi mewn nifer o leoliadau mewn blwyddyn. Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd:

“since 2006 there has been a 4 per cent reduction in the number of children who have had three or more placements in any year. That is not good enough, but it is a move in the right direction.”¹⁴

32. Roedd y dystiolaeth gan y tystion yn awgrymu mwy nag un rheswm dros aneffeithiolrwydd wrth gynllunio lleoliadau. Awgrymwyd bod cynllunio lleoliad cyn y broses wirioneddol o ganfod a chomisiynu lleoliad yn cael ei handwyo gan y diffyg amser oedd yn cael ei dreulio ar asesiadau craidd a chynllunio lleoliadau, diffyg dewis cyffredinol o leoliadau a'r angen mewn sawl achos i sicrhau lleoliadau brys.

Asesiadau Craidd

33. Cyn cael eu rhoi mewn lleoliadau derbyn gofal, cynhelir 'asesiad craidd' o'r plant a'r bobl ifanc, er mwyn canfod eu hanghenion a'u pryderon. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod yr asesiad craidd ar ddechrau'r broses yn bwysig iawn¹⁵ fel man cychwyn ar gyfer penderfynu ar leoliadau posibl ar gyfer y plentyn.

34. Dywedodd AGGCC, fodd bynnag, fod y nifer fawr o achosion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol unigol o bryd i'w gilydd yn golygu y gall

¹³ Y Cofnod, Para 21, Y Pwyllgor Plant a Phobl ifanc, 7 Gorffennaf 2009

¹⁴ Y Cofnod, Para 94, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

¹⁵ Y Cofnod, Para 94, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

yr asesiadau craidd o anghenion plant a phobl ifanc, a'r gwaith cynllunio dilynol ar gyfer eu lleoliad, fod yn fryslog ac yn arwynebol.¹⁶

35. Yn yr un modd dywedodd yr Ymddiriedolaeth Plant a Phobl Ifanc (TACT):

“individual social work practice can vary tremendously given the experience of the social worker and the busyness in terms of their caseloads. We are finding that we are receiving referrals for children where, often, there has not been a complete assessment of their needs.”¹⁷

36. Mae tystiolaeth yr ymchwiliad hwn yn dangos yn glir bod angen gwella ansawdd y cynlluniau gofal ar gyfer plant yng Nghymru sy'n derbyn gofal, os ydym am sicrhau gwell canlyniadau i'r plant a'r pobl ifanc hyn. Credwn fod angen cydweithio effeithiol a meithrin cysylltiadau da rhwng gweithwyr cymdeithasol a phlant a phobl ifanc er mwyn sicrhau cynlluniau gofal da, gan gynnwys amcanion penodol ar gyfer lleoliadau.

37. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol, hefyd, nad yw'n hawdd mynd i'r afael â'r mater hwn, gyda chanllawiau eisoes yn nodi'r gofynion ar gyfer yr asesiadau hyn. Dywedodd y Rhwydwaith Maethu wrthym:

“The Schedule to the regulations sets out what should be agreed in advance. You would expect that when you have a good plan with identified outcomes for the child, it would lead you into the foster placement agreement, which is agreed in advance with the foster carer to show what we are trying to achieve, how we want to achieve it, what the carer's responsibility within that is, and what authority we give the carer within that. It should all be quite clear when they start out, but the reality is that that does not happen.”¹⁸

38. Felly rydym yn awyddus i sicrhau y gall gweithwyr cymdeithasol wneud asesiad cywir o anghenion plant a phobl ifanc. Ym mhennod 4 o'r adroddiad hwn, nodir ein sylwadau ar wella'r cymorth ar gyfer gweithwyr cymdeithasol.

¹⁶ Y Cofnod, Para 164, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

¹⁷ Y Cofnod, Para 99, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

¹⁸ Y Cofnod, Para 80, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

Dewis o Leoliadau

39. Er bod gwir anghenion y plentyn yn cael eu canfod, un arall o bryderon y tystion oedd y gallai'r diffyg dewis o ran lleoliadau derbyn gofal posibl amharu ar y gwaith o gynllunio gofal y plentyn dan sylw. Dywedodd y Rhwydwaith Maethu:

“The work done by Loughborough University in its costs and outcomes study, which was undertaken across England and Wales, shows that those local authorities that were able to take great care when making a placement and in deciding where a child went were more likely to be effective at reducing the number of children rocketing through the care system, which is very bad for the children and also leads to progressively more expensive placements, so it is bad for local authorities and for children. So, the issue is that ability to take care when deciding the placement, and that requires a choice of families to be available.”¹⁹

40. Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain (BAAF):

“there is not always a vacancy rate that allows you to plan... you start to think about a sibling group coming in, but you would be lucky to find a placement that could cope with a sibling group of three or four children.”²⁰

41. Efallai bod y broblem o opsiynau cyfyngedig oherwydd cydweddu gwael rhwng gofalwyr a phlant a phobl ifanc yn waeth am fod gofalwyr maeth o dan bwysau i dderbyn plant a phobl ifanc i'w gofal. Dywedodd Barnardo's wrthym:

“foster carers are extremely well meaning people who want to do the best for children and young people, and who find it difficult to say 'no' to placement requests that are made to them... When that match of foster carers' skills and needs of

¹⁹ Y Cofnod, Para 25, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

²⁰ Y Cofnod, Para 23, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

young children does not come into play, the outcomes are negative.”²¹

42. Yn wir, roedd y rhan fwyf o’r tystion yn cytuno nad oes digon o ofalwyr maeth ar gael i leoli plant a phobl ifanc, ac awgrymodd un tyst fod angen 700 yn fwy yng Nghymru, er mwyn galluogi cynllunwyr i gael digon o ddewis o ran lleoliadau posibl.²² Dywedodd Dr Heather Payne wrthym:

“We would need a fairly major foster care recruitment strategy in order to provide anything resembling a choice of foster placement.”²³

43. Pan soniwyd am y pryder hwn wrth y Dirprwy Weinidog, dywedodd:

“Yr ydym wedi ceisio denu rheini maeth ar draws y sector. Mae’r sefyllfa’n gwella, ond, wrth gwrs, mae wastad mwy i’w wneud.”²⁴

44. Roedd tystiolaeth yr ymchwiliad hwn yn awgrymu nifer o ffyrdd posibl o recriwtio gofalwyr maeth ychwanegol, gan gynnwys talu ffioedd i’w cadw wrth gefn, cynnwys gofalwyr maeth yn y gwaith o gynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc sy’n dod i’w gofal, a gwella’r gwasanaethau cymorth a chyingor ar gyfer gofalwyr maeth. Rydym wedi cynnwys ein hystyriaeth fanwl o’r syniadau hyn ym mhennod 4 o’r adroddiad hwn, gan ein bod o’r farn y byddai’n ddefnyddiol i nifer y lleoliadau derbyn gofal yng Nghymru fod yn uwch na nifer y plant a phobl ifanc sydd angen y gofal hwnnw. Credwn fod posibilrwydd y byddai hyn yn caniatáu ar gyfer cydweddu plant a phobl ifanc â gofalwyr yn well, gan arwain at leoliadau mwy sefydlog.

45. Wrth wneud yr awgrym hwn, nodir sylwadau nifer o dystion y gallai llefydd gwag effeithio ar adnoddau ac y gallai olygu newid diwylliant mewn rhai awdurdodau lleol. Dywedodd Gweithredu dros Blant:

“it is acceptable to carry a vacancy, because you can then match appropriately, but the expectation in many local

²¹ Y Cofnod, Para 96, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

²² Y Cofnod, Para 24, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

²³ Y Cofnod, Para 67, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 6 Mehefin 2009

²⁴ Y Cofnod, Para 145, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

authorities is that you should function at full capacity, which does not allow for good matching.”²⁵

46. Rydym hefyd yn cydnabod sylwadau Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain (BAAF) ei bod yn anodd penderfynu’n union faint o lefydd gwag sydd eu hangen er mwyn cydweddu’n fwy cywir:

“some would say that you need a vacancy rate of at least 10 to 15 per cent to be able to make an effective match... That figure itself masks a complexity because, in a sense, the vacancy might be 10 per cent for children under the age of five, but you need to consider the vacancy rate for the particular children or child whom you have in mind.”²⁶

47. Yn wir, dywedodd y tystion fod angen gofalwyr maeth arbenigol ar gyfer grwpiau arbennig o blant a phobl ifanc sydd ag anghenion penodol. Dywedodd TACT Cymru wrthym mai’r gred yw bod tua 70% o blant sydd wedi derbyn gofal wedi cael eu cam-drin a’u hesgeuluso yn y gorffennol, sy’n golygu bod angen gofalwyr medrus ac arbenigol.²⁷ Dangosodd tystiolaeth yn yr ymchwiliad hwn hefyd, efallai bod angen gofalwyr arbenigol er mwyn maethu plant a phobl ifanc du ac o leiafrifoedd ethnig, plant anabl, plant sy’n siarad Cymraeg a phlant, er enghraifft, sy’n dangos ymddygiad rhywiol. Fel y dywedodd Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain, mae’n gamarweiniol i siarad am ofal maeth fel un peth; mae’n cuddio amrywiaeth eang o anghenion.²⁸

48. Er hynny, mae’n amlwg bod angen mwy o ofalwyr maeth yng Nghymru, a mwy o ofalwyr maeth sydd â sgiliau arbenigol i ofalu am grwpiau penodol o blant, er mwyn gallu cynnig dewis o leoliadau posibl i’r bobl sy’n gwneud penderfyniadau.

Lleoliadau Brys

49. Caiff y gwaith o gynllunio lleoliadau ei andwyo hefyd, wrth gwrs, gan yr angen, weithiau, am leoliadau brys. I raddau, mae hyn yn wirionedd anochel, a dywedodd TACT Cymru:

²⁵ Y Cofnod, Para 181, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

²⁶ Y Cofnod, Para 25, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

²⁷ Y Cofnod, Para 111, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

²⁸ Y Cofnod, Para 7, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

“We often see same-day placements being made in an emergency and in crisis, rather than being planned.”²⁹

50. Yn yr un modd, dywedodd NSPCC CYMRU:

“we recognise that many placements are arranged on an emergency basis, and that they cannot be planned and necessarily be well thought out.”³⁰

51. Credwn y dylai lleoliadau brys, nas cynllunnir, gael eu cadw'n drefniadau tymor byr. Pan gaiff lleoliad brys o'r fath ei wneud, credwn ei bod yn hanfodol y caiff cynlluniau ar gyfer lleoliad gofal hirdymor y plentyn gael eu gwneud yn gyflym, gyda'r plentyn neu'r person ifanc yn cael eu hysbysu'n llawn o'r trefniadau sy'n cael eu gwneud. Nid yw hyn yn golygu y dylai'r plentyn gael ei symud ymlaen yn awtomatig o leoliad brys tymor byr. Rydym yn cydnabod y gallai rhai plant deimlo'n gyfforddus iawn yn eu lleoliad cychwynnol, ac nad ydynt am symud. Yn wir, cafwyd tystiolaeth gadarnhaol gan Barnardo's Cymru bod pobl ifanc eisoes yn cymryd rhan yn y dewis o leoliad parhaol sy'n berthnasol iddynt.³¹

52. Yn hytrach, credwn y dylai cynllun gofal ar gyfer y plentyn, a allai gynnwys eu bod yn aros yn eu lleoliad cychwynnol, gael ei baratoi'n gyflym, gyda dymuniadau'r plentyn yn cael ystyriaeth amlwg. Fel y dywedodd Plant yng Nghymru:

“If it is an emergency placement, it is not always possible to involve the child effectively at every point, but that does not mean to say that we cannot involve the child. We need to do it as soon afterwards as we can to make sure that their concerns are fed in.”³²

53. Rydym yn pryderu y gallai oedi'r broses hon, a gadael person ifanc mewn ansicrwydd, ynghyd â'r trafferthion gwreiddiol a arweiniodd at roi'r person ifanc mewn lleoliad derbyn gofal, gael effaith andwyol ar ei iechyd emosiynol ac iechyd meddwl. Yn wir, dywedodd NSPCC CYMRU wrthym y gall diffyg sefydlogrwydd arwain at

²⁹ Y Cofnod, Para 95, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

³⁰ Y Cofnod, Para 98, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 24 Tachwedd 2009

³¹ Y Cofnod, Para 128, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

³² Y Cofnod, Para 60, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009.

ddiffyg cysylltiad emosiynol ac y gallai hynny, yn ei dro, arwain at ragor o drafferthion o ran lleoliadau.³³

54. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol ei bod eisoes yn ofyniad statudol y dylai pob plentyn sy'n derbyn gofal gael Cynllun Gofal, pa un a yw mewn gofal preswyl neu mewn lleoliad derbyn gofal³⁴. Os na ellir gwneud cynllun cyn i'r plentyn gael ei leoli, mae Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007 yn nodi:

“4.-(1) Cyn lleoli plentyn rhaid i'r awdurdod cyfrifol, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol, wneud trefniadau ar unwaith a thros dymor hir ar gyfer y lleoliad hwnnw, ac ar gyfer hybu lles y plentyn sydd i'w leoli.

(2) Pan na fo'n ymarferol gwneud y trefniadau hynny cyn y lleoli, rhaid i'r awdurdod cyfrifol eu gwneud cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny.”³⁵

55. Yn ogystal, hyd yn oed pan fydd y lleoliad wedi'i wneud mewn sefyllfa frys, rhaid i'r dogfennau canlynol gael eu cwblhau cyn lleoli'r plentyn, a'u bod ar gael i'r gofalwr:

- Y Cofnod Gwybodaeth Hanfodol (Rhan 1, cwestiynau 1 - 22)
- Cynllun Lleoli Rhan 1 (Cytundeb Lleoli)

56. Un o'r gofynion statudol hefyd yw y dylai'r 'Cynllun Gofal a'r Cofnod Gwybodaeth Hanfodol Rhan 2' gael eu cwblhau cyn gynted â phosibl ac o fewn 14 niwrnod i leoli'r plentyn neu'r person ifanc, a dylid darparu copi ar gyfer y gofalwr maeth. Os nad yw'n bosibl cadw at yr amserlen hon, dylid cadw cofnod o'r rheswm dros hynny ar y ffeil.

1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru i ganfod pa mor aml nad yw'r 'Cynllun Gofal a'r Cofnod Gwybodaeth Hanfodol Rhan 2' yn cael eu cwblhau o fewn 14 niwrnod i leoli plentyn neu berson ifanc mewn

³³ Y Cofnod, Para 96, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 24 Tachwedd 2009.

³⁴ Cynllun y cytunwyd arno ar gyfer gofalu am blentyn a diwallu anghenion presennol y plentyn hwnnw a'i anghenion yn y dyfodol, a wnaed gan yr awdurdod sy'n lleoli o dan *Ddeddf Plant 1989*.

³⁵ Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007

Ileoliad derbyn gofal, a chymryd y camau priodol i fynd i'r afael ag achosion niferus, yn ôl yr angen.

57. Roedd gennym ddiddordeb, hefyd, yn nisgrifiad Barnardo's Cymru o enghraifft o arfer da o ran ymateb i leoliadau brys o'r fath, drwy ddefnyddio gofaluwr arbenigol sydd wedi cael eu hyfforddi i ymdrin â lleoliadau brys fel hyn:

“These carers are well trained and are generally paid whether the placement is occupied or not. We support the idea of such placements as they can frequently provide the short term care and support the child or young person may need prior to any longer term placement planning.”³⁶

58. Rydym wedi ystyried effeithiau posibl yr arfer hwn ar recriwtio a chadw gofaluwr maeth, gan gynnwys defnyddio ffioedd cadw wrth gefn ar gyfer gofaluwr maeth heb leoliadau, ym mhennod 4.

Canfod lleoliadau a'u comisiynu

Gwerth yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR)

59. Ar y cyfan, roedd y tystion yn cytuno bod yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant wedi helpu i wella'r gwaith o gydweddu lleoliadau a lleihau nifer y lleoliadau a ddefnyddir y tu allan i sir leol y plentyn neu'r person ifanc. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

“[The Welsh Government} has taken a national lead in developing a resource that will bring together the commissioners and providers, which is very important, and will bring together the public and independent sectors. Successful commissioning can drive sufficiency and diversity of quality placements, which depends on all of us and a whole range of organisations and agencies working together. The CCSR has already facilitated that collaboration.”³⁷

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig gan Barnardo's Cymru.

³⁷ Y Cofnod, Para 102, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

60. Ar y cyfan, hefyd, mae'r tystion yn cytuno bod y wybodaeth a gaiff ei chynhyrchu gan yr adnodd hwn yn hwyluso awdurdodau lleol i gynllunio darpariaeth lleoliadau yn well. Dywedodd CLILC:

“When that database was initially commissioned, it led to us having much more valuable information. It is a resource that lets us know what the provision is across Wales, and that is the first time that we have been able to do so.”³⁸

61. Dywedodd CLILC hefyd bod yr adnodd wedi bod yn fan cychwyn ar gyfer ffyrdd o gyd-gomisiynu rhwng awdurdodau lleol:

“there is an excellent initiative across south-east Wales, which connects the south-east Wales agenda, where 10 authorities have worked together to develop a regional commissioning approach to work with our partners in the independent sector.”³⁹

62. Bellach, mae holl awdurdodau lleol Cymru yn gwneud defnydd o'r gronfa ddata hon. O gofion hanes Cymru o wahanol awdurdodau lleol yn gweithio ar wahân ar gyfer eu plant a'u pobl ifanc eu hunain, a gwneud taliadau gwahanol i ofalwyr maeth, credwn fod hyn, ynddo'i hun, yn llwyddiant sylweddol.

Problemau o ran defnyddio'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR)

63. Fodd bynnag, soniodd rhai o dystion yr ymchwiliad am broblemau gyda'r gronfa ddata:

- ymddengys bod rhai defnyddwyr yn cael problemau o ran diweddarau'r wybodaeth;
- ymddengys nad oedd rhai awdurdodau lleol yn defnyddio'r adnodd yn gyson;
- nid yw'r adnodd, ar hyn o bryd, yn cynnwys lleoliadau mewnol a ddarperir yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol;

³⁸ Y Cofnod, Para 12, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

³⁹ Y Cofnod, Para 12, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

- ni all darparwyr annibynnol ddefnyddio'r data felly ni allant gynllunio'u darpariaeth eu hunain.

64. Er enghraifft, dywedodd Gweithredu dros Blant:

“we input information to the database, but we cannot get information back out of it. That information is held by local authorities, so we are not able to target our recruitment in the way that we were able to. So, we have a mixed response on the value of the database system.”⁴⁰

65. Yn ogystal, dywedodd TACT Cymru:

“we have the children’s commissioning support resource database, which local authorities are supposed to be signed up to and working with, but we are finding that they are not totally signed up to or working with it. Referrals come on an ad hoc basis and they do not always come via the database. So, I would say that we are, in fact, working with about five different systems.”⁴¹

66. Awgrymodd Gweithredu dros Blant hefyd mai'r rheswm bod rhai awdurdodau lleol yn cael eu hystyried yn anghyson o ran defnyddio'r gronfa ddata oedd:

“things change on a daily basis in the world of fostering. It is very hard to ensure that that database is up to date on a day-to-day basis, as a live system. So, I think that some of the frustrations from the local authority may be down to the fact that, when they access the database and see that there are, for example, three placements that meet the criteria available, when they make contact, they find that they are not available, because the database has not been updated and things have changed.”⁴²

67. Cytunodd CLILC ei bod yn hanfodol i'r gronfa ddata gael ei diweddarau'n rheolaidd gan ddarparwyr, gan nodi:

⁴⁰ Y Cofnod, Para 97, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

⁴¹ Y Cofnod, Para 82, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

⁴² Y Cofnod, Para 104, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

“the critical information that needs to be there that varies the most and gets out of date quickly is that on vacancies. The other information changes infrequently: the status of the provider, the quality reports, the inspection reports and so on. At the end of the day, it is the providers’ responsibility to keep that information up to date. We have worked with the independent providers to have a system in place in which they work to keep the information up to date, because they understand that if we do not know about a vacancy, then, to put it crudely, they will not have a placement.”⁴³

68. Credwn y gallai cynyddu’r wybodaeth sydd ar gael ar y wefan i ddarparwyr annibynnol gynorthwyo i benderfynu ar anghenion y ddarpariaeth yn y dyfodol, er ein bod, hefyd, yn ymwybodol o’r anawsterau o ran cadw cyfrinachedd masnachol. Fodd bynnag, credwn y gallai gwybodaeth benodol gan yr Adnodd gael ei chyfleu i ddarparwyr yn achlysurol ac yn rheolaidd.

2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn trafodaeth ag awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn cynhyrchu gwybodaeth reolaidd a manwl o ran y tueddiadau yn y mathau o leoliadau a’r meysydd diffygiol, a sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael i’r cyhoedd.

Pryderon o ran diben yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant

“We have to stop treating children as if they were lumps of tarmac; they are individuals.”⁴⁴

– Angela Burns AC.

69. Roedd nifer o’r tystion hefyd yn pryderu bod dylanwad yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant wedi arwain, yn anfwriadol, at greu proses leoli sy’n golygu dim ond “ticio’r blychau”. Roedd y tystion yn glir nad oes dim a fyddai’n cymryd lle trafodaethau rhwng partion am leoliadau unigol, o gofio bod asesu ansawdd a chydweddu da yn hanfodol er mwyn sicrhau lleoliadau llwyddiannus. Er enghraifft, dywedodd Gweithredu dros Blant:

⁴³ Y Cofnod, Para 71, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

⁴⁴ Y Cofnod, Para 38, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

“A database system is only as good as the information that you put into it. It tends to direct you to a tick-box approach. It is the narrative behind some of that that is missing from it. You cannot get at that information until you have the conversation with somebody, and because the database system prohibits you from having those conversations at an early stage, it is very difficult to get at that information. We get requests for placements with carers who can deal with sexualised behaviour, but you have no idea what that means and, in one case, we discovered that it meant that the child was using sexualised language. So, there are all the nuances that a tick-box system does not allow you to elaborate on. It inhibits that sharing of information, and tends to keep it very bald.”⁴⁵

70. Yn yr un modd, dywedodd Barnardo’s Cymru:

“the CCSR database obviously supplies a lot of useful information about numbers, such as numbers of carers across Wales, but it is important that it is not used as the sole matching tool. I think that there was some risk that local authorities would run a search for carers and come up with ‘Yes, this agency has a carer’ but would try to match on that basis with limited information. The CCSR is a tick box, and it might deal with what the carer feels that they can manage, but you need far more than that when matching carers to children.”⁴⁶

71. Er bod yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant yn ddyfais ddefnyddiol, dywedodd Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain hefyd na ddylai’r adnodd hwn rwystro awdurdodau lleol rhag siarad yn uniongyrchol â darparwyr annibynnol wrth gomisiynu lleoliadau maethu, gan ddweud:

“nothing can replace knowing the child’s needs inside out. Databases can be a guide and can help, but they will never replace that. The danger is that they can be seen as a replacement.”⁴⁷

⁴⁵ Y Cofnod, Para 107, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

⁴⁶ Y Cofnod, Para 102, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

⁴⁷ Y Cofnod, Para 29, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

72. Fodd bynnag, pwysleisiodd y swyddogion llywodraeth leol nad oedd unrhyw fwriad i gronfa ddata'r Adnodd rwystro awdurdodau lleol rhag gwneud cysylltiad uniongyrchol â sefydliadau. Dywedodd CLILC:

“we were clear from the beginning that this is not an electronic abdication of local authorities’ responsibility to find a really good placement for the child, along with the ongoing assessment and care management. We had a number of problems in the beginning because people thought that it would do everything. That is why it is called CCSR. Those words were chosen very carefully. This is not a central commissioning function through which local authorities have abdicated their responsibility; it is a support resource.... if there are a couple of potential matches, they have to go and assess them, as they would have done if they were using the Yellow Pages or because they know Mary and that she has been a good foster carer. It is the same process. All that we have done with the children’s commissioning support resource is to make it electronic, systemise it, make it real time and record it, so, for the first time, there is documentary evidence as to why a placement is chosen, as opposed to a social worker saying, ‘Well, we’ve always done it this way.’”⁴⁸

73. Yn wir, dangosodd swyddogion yr Adnodd mai ychydig iawn o wybodaeth sydd angen ei rhoi i greu lle gwag ar y gronfa ddata, gan ddweud mai'r cyfan fyddai angen i ddarparwr ei wneud fyddai:

“key in about four or five pieces of information to set up a vacancy, and it is possible that you may have heard that this is difficult, so I wish to dispel that notion in this session. It is a fairly simple thing to do to set up a vacancy.”⁴⁹

74. Credwn na all y wybodaeth fwriadol, a hanfodol gyfyngedig, a ddarperir gan yr Adnodd gymryd lle trafodaethau rhwng pobl. Yn rhyfedd iawn, mewn oes pan fydd swyddogion yn aml yn trafod yr angen am gyfrifiaduron a thechnolegau i siarad â'i gilydd, mae angen mawr i bobl siarad â'i gilydd yn fwy aml hefyd.

⁴⁸ Y Cofnod, Para 44 a 61, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 24 Tachwedd 2009

⁴⁹ Y Cofnod, Para 17, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 24 Tachwedd 2009

75. Mae tystiolaeth yr ymchwiliad hwn yn awgrymu bod angen i bob rhanddeiliad, fel rhan o adolygiad, drafod effeithiolrwydd y gronfa ddata a'r gwelliannau sydd eu hangen. Felly rydym yn croesawu sylwadau'r Dirprwy Weinidog o ran bwriad Llywodraeth Cymru:

“commission an evaluation of CCSR and how it has contributed to local placement strategies and will ensure the evaluation takes into account the evidence of this Committee.”⁵⁰

76. Fodd bynnag, credwn fod angen ystyried hefyd berthynas y gronfa ddata â systemau eraill sy'n casglu gwybodaeth a chomisiynu, gan gynnwys trafodaeth lafar, uniongyrchol rhwng awdurdodau lleol a darparwyr.

3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwerthusiad o effeithiolrwydd y broses leoliadau, yn cynnwys y defnydd o'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant, a nodi gwelliannau.

4. Fel rhan o'r gwaith o hwyluso'r gwerthusiad y cyfeirir ato yn Argymhelliad 3, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gall gofalwyr maeth annibynnol gyfleu eu sylwadau o ran effeithiolrwydd y broses leoli, gan gynnwys yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant.

5. Fel rhan o'r gwaith o hwyluso'r gwerthusiad y cyfeirir ato yn Argymhelliad 3, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gall darparwyr gofal maeth annibynnol gyfleu eu sylwadau o ran effeithiolrwydd eu cyfathrebu ag awdurdodau lleol, gan gynnwys cyfathrebu drwy'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant, ond heb fod yn gyfyngedig iddo.

Pwysau Ariannol

“In goes the price, the local authority says, ‘Yippee, that one is great because that is the lowest price’”⁵¹

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru, http://www.assemblywales.org/cyp_3_pcc_12_response_from_gwenda_thomas_minister_of_health_and_social_services_e.pdf

⁵¹ Y Cofnod, Para 121, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

- Angela Burns AC

77. Cododd llawer o dystion bryderon y gallai pwysau ariannol ar awdurdodau lleol arwain at wneud penderfyniadau cynllunio lleoliad yn ôl pris yn hytrach nag anghenion y plentyn. Am ei bod yn bosibl mai ychydig iawn o wybodaeth y gall yr Adnodd ei darparu ar gyfer lleoliadau, dywedodd y tystion ei bod yn ymddangos bod y gwaith tendro yn digwydd drwy ganolbwyntio ar bris yn hytrach nag anghenion y plentyn.

78. Er enghraifft, dywedodd Gweithredu dros Blant wrthym:

“local authorities, when they receive the tender bids for those placements, have a matrix that they then use to score those bids. Unfortunately, price has quite a high level of importance on that matrix. As it is not a transparent process, there is no way of challenging that.”⁵²

79. Yn yr un modd, dywedodd Barnardo’s Cymru:

“on occasion, the wrong matches are made in local authority placements in order to avoid the big decisions about financing the more expensive placements...

We are being informed, as an agency, that if we do not put down how much our service costs we will not even be considered for a placement. That shows how fundamental, in a way, the cost is, when the carer that you have could be the ideal carer. If you do not put the price down, they will not consider the placement. So, I think that finance is very high up on the agenda.”⁵³

80. Dywedodd TACT Cymru, hefyd, y gallai’r canfyddiad o gostau lleoliadau annibynnol fod yn anghywir weithiau, a dywedodd na chaiff rhai costau eu hystyried wrth gymharu pris lleoliad annibynnol o’i gymharu â lleoliad mewnol.⁵⁴ Soniodd TACT hefyd y gallai barn fyrdymor olygu ei bod yn bosibl y byddai awdurdodau lleol yn dewis y

⁵² Y Cofnod, Para 120, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

⁵³ Y Cofnod, Para 95 a 103, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

⁵⁴ Y Cofnod, Para 86, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

mathau rhataf o ofal plant a fyddai ar gael i ddechrau, ond heb fod o'r ansawdd gorau neu'r canlyniad hirdymor mwyaf cadarnhaol.

81. Ein pryder yw y gallai'r system hon arwain at ddarparwyr annibynnol cystadleuol yn codi prisiau is, gan arwain at lai o gymorth a hyfforddiant ar gyfer gofalwyr maeth. Byddai hyn, yn ei dro, yn arwain at niwed a chostau yn y tymor hwy, gan na fyddai plant a phobl ifanc yn cael y cymorth llawn y dylent ei gael.

82. Roedd CLILC yn cydnabod gwerth canolbwyntio ar ganlyniadau lleoliadau yn hytrach na chostau. Awgrymodd y byddai'r 'South East Wales Improvement Collaborative Children's Services Commissioning Project' yn hwyluso 10 o awdurdodau yn ne ddwyrain Cymru:

“to start on outcome-based procurement, as opposed to saying, ‘Yes, we have a placement; thank goodness, let’s stop worrying about that’... What is driving it is the consistency of outcomes. The real spin-off is that the providers are really engaged because they feel, for the first time, that their skills have been recognised and that they are being asked to help to shape the market in a collaborative way.”⁵⁵

83. Eglurodd CLILC y byddai'r prosiect hwn yn galluogi awdurdodau lleol yn y ffordd ganlynol:

“use the CCSR database to short list potential suitable placements for a child. Providers short listed will be then offered the opportunity to tender for the placement outlining how their foster placement will offer the best care and outcomes for that child. As part of this process the child’s care plan (personal details anonymised) will be sent to the short listed providers so that they have the information required to make a decision as to whether their provision has the skills needed. In sending the child’s care plan to prospective providers this ensures that agencies if successful will have the information required to pass onto chosen foster carers.”⁵⁶

⁵⁵ Y Cofnod, Para 74, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, CLILC, <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-cyp-home/bus-committees-third-cyp-agendas.htm?act=dis&id=147641&ds=11/2009>

84. Fodd bynnag, rydym yn pryderu o hyd y gallai pris, yn yr enghraifft hon, gael ei ddefnyddio fel ffactor allweddol wrth lunio rhestr fer o leoliadau addas, cyn ystyried y canlyniadau a fwriedir. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r pwysau sydd ar awdurdodau lleol i sicrhau'r gwerth gorau am arian, credwn ei bod yn hanfodol bod awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar y canlyniadau y maent yn gobeithio'u cael o'r lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n mynd i leoliadau derbyn gofal, yn fwy na'r pris. Credwn hefyd y byddai llawer o leoliadau aneffeithiol yn yr hirdymor yn llawer drytach na lleoliad sefydlog o'r cychwyn.

6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau statudol sy'n amlinellu na ddylai awdurdodau lleol fod yn ystyried costau wrth lunio rhestr fer o leoliadau posibl ar gyfer plentyn. Dylai'r canllawiau hyn ddatgan yn glir mai dim ond er mwyn gwahaniaethu rhwng lleoliadau bosibl a allai gynnig canlyniadau addas i'r plentyn dan sylw y dylai'r awdurdod lleol ystyried costau.

2. Rhannu Gwybodaeth

Rhannu gwybodaeth â gofalwyr maeth

85. Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn dod o hyd i leoliadau Derbyn Gofal ac yn eu comisiynu yn seiliedig ar gydweddu gwybodaeth am anghenion y plentyn â gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan wahanol leoliadau posibl. Fel rhan o'r broses hon, dylai gwybodaeth briodol gael ei rhoi i asiantaethau maethu a / neu ofalwyr maeth am anghenion y plant a'r bobl ifanc sy'n dod i'w gofal.

86. Yn ystod ein hymchwiliad, fodd bynnag, clywsom dystiolaeth glir nad yw gwybodaeth am blant a phobl ifanc unigol yn cael ei rhannu ag asiantaethau maethu a / neu ofalwyr maeth, fel rhan o'r broses leoli. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am faterion a allai effeithio ar iechyd, lles ac addysg y plant a'r bobl ifanc, ac a allai, yn eu tro, effeithio ar y teuluoedd sy'n eu maethu. Er enghraifft, dywedodd y Rhwydwaith Maethu:

“It is really worrying when you hear of children placed with foster carers who do not know whether they have allergies or what medication they are taking. Those are fundamental matters that could be quite dangerous not to know.”⁵⁷

87. Yn yr un modd, dywedodd Dr Heather Payne wrthym:

“when I see children and young people, regarding whatever I am consulting with them for, and I ask the foster carer what they know about that young person's history, they frequently say, 'I have no idea about anything'. I can only conclude that there are no great systems to give them all the information, but, as I said, we have a system to give them what we have control over, namely the health information, which works well. As with any system, confidential information is confidential, but if you get consent and involve the young person in the process

⁵⁷ Y Cofnod, Para 20, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

and say, 'It will help you if we can share this, but it will be kept confidential by the foster carer', they hardly ever disagree."⁵⁸

Yr hyn sy'n rhwystro gwybodaeth rhag cael ei rhannu gyda gofalwyr

88. Roedd tystiolaeth yr ymchwiliad hwn yn awgrymu bod nifer o resymau posibl nad yw gwybodaeth yn cael ei rhannu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- gweithwyr proffesiynol yn camddehongli gofynion diogelu data a gofynion cyfrinachedd;
- gweithlu cymharol ddibrofiad ac sy'n mynd a dod mewn adrannau gwaith cymdeithasol;
- ofnau y gallai gwybodaeth annymunol rwystro gofalwyr maeth rhag cynnig eu hunain;
- gwybodaeth gan deuluoedd biolegol yn cael ei datgelu'n araf.

89. Soniodd llawer o dystion am bryderon o ran dehongliad gweithwyr proffesiynol o ofynion diogelu data a gofynion cyfrinachedd.

Awgrymodd y Rhwydwaith Maethu:

"there are misunderstandings about data protection and confidentiality, which means that people do not realise that they can and should share this information... foster carers are somehow not regarded as full and equal members of the team of professionals around the child with whom people would generally share information easily, so somehow there is an artificial barrier there."⁵⁹

90. Mynegwyd pryderon yn ystod yr ymchwiliad hwn o ran rhannu mathau penodol o wybodaeth, er enghraifft a ddylai gofalwyr gael eu hysbysu o gyhuddiadau disail. Cawsom ein hatgoffa gan Plant yng Nghymru bod rhai achosion anffodus o wybodaeth anghywir yn cael ei

⁵⁸ Y Cofnod, Para 50, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 6 Mehefin 2009

⁵⁹ Y Cofnod, Para 55, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

chyfleu i ofalwyr ac mae hyn yn beryglus.⁶⁰ Yn yr un modd, dywedodd Gweithredu dros Blant:

“I do not think that I would advocate foster carers reading local authority files, because I think that it is the professional analysis of that information that makes it relevant. I do not think that it would be particularly helpful for foster carers to read that information. Somebody who is able to professionally analyse the information that is in there should be reading it and should be doing an overview of what that child’s life has been like and what the child’s needs are.”⁶¹

91. Rhwystr arall y cyfeiriodd y tystion ato o ran rhannu gwybodaeth yw swyddogaethau newidiol gweithwyr cymdeithasol. Dywedodd Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain:

“social workers could be moving around and failing to collect the information or a new social worker may not have got that information together to be able to share it.”⁶²

92. Yn yr un modd, awgrymodd Plant yng Nghymru:

“When it works, it works exceptionally well, where there is that good, healthy, consistent relationship between a key worker and the foster carer. Too often, there is a constant change of staff, which is having an impact. That is where gaps are created and things fall between them. Information is not passed on and the file is completed by several different people over the life course of the child. So, the more changes there are, the more risks there are to information not being captured and not being shared effectively.”⁶³

93. Roedd tystion eraill yn pryderu y gallai awdurdodau lleol fod o dan yr argraff y gallai gwybodaeth annymunol rwystro darpar ofalwyr maeth rhag maethu plentyn. Er enghraifft, dywedodd TACT:

“there still exists, for some workers in some local authorities, a mistrust of the independent sector, and, within that mistrust,

⁶⁰ Cyflwyniad ysgrifenedig gan Plant yng Nghymru

⁶¹ Y Cofnod, Para 152, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

⁶² Y Cofnod, Para 54, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

⁶³ Y Cofnod, Para 50, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

there is a belief that if we had the full information, we would cherry pick the children that we place. For us, the importance of ensuring that we have the full information is to get the right placement match. What we see too often is a child being moved around the place and around the system, with one foster placement breakdown after another, and we know that each breakdown causes further disruption to a child's life. With the full information and with our knowledge of our foster carers, we are able to make better assessments to ensure that we get the right placement when a child first enters the care system.”⁶⁴

94. Yn olaf, nodwyd nad yw'r wybodaeth am y plentyn i'w chael gan yr awdurdod lleol ei hun bob amser. Dywedodd AGGCC:

“Sometimes, the child does not come complete with a package of information; information is gleaned over a period of time. So, if a child comes in who has not been known to social services for whatever reason, you are going to have to build up that relationship with the child and the family to identify the important information. Families do not always provide it. Sometimes, it takes a long time to get to understand what has been going on in a family.”⁶⁵

Mynd i'r afael â'r hyn sy'n rhwystro gwybodaeth rhag cael ei rhannu â gofalwyr

95. Yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau ar ddarparu gwybodaeth ar gyfer gofalwyr maeth. Yn wir, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“It is poor practice not to share information that could be shared. The experiences that we have had have shown that where the law prohibits the sharing of information, that is another matter, but, in some cases, information has not been shared as effectively as it could have been, or has not been shared when it would have been sensible to do so.”⁶⁶

⁶⁴ Y Cofnod, Para 105, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

⁶⁵ Y Cofnod, Para 155, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

⁶⁶ Y Cofnod, Para 114, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

96. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth yr ymchwiliad yn dangos nad oedd eglurder o ran y ffordd o ymdrin â gwybodaeth ddi-sail. Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am ddarparu nifer o enghreifftiau damcaniaethol o sefyllfaoedd yr oedd Llywodraeth Cymru o'r farn na fyddai'n briodol rhannu gwybodaeth â gofalwr maeth. Roedd y rhain yn cynnwys enghreifftiau lle roedd gwybodaeth am deulu biolegol y plentyn yn berthnasol i'w lleoliad maeth, fel:

"A 10 year old girl is placed with foster carers. Her mother is HIV positive. Unless the local authority is satisfied that that it is relevant for the foster carers to know that the mother is HIV positive, this information should not be shared."⁶⁷

97. Rhoddodd Llywodraeth Cymru hefyd enghraifft o sefyllfaoedd lle y byddai angen caniatâd y plentyn i rannu gwybodaeth, fel:

"A 12 year old boy is placed with foster carers. He has disclosed information in confidence to a psychotherapist within therapy sessions. This information would not be shared with foster carers."⁶⁸

98. Rydym yn cydnabod pa mor gymhleth yw cyfleu gwybodaeth ddisail i ofalwyr maeth. Rydym hefyd yn nodi y gallai fod yn angenrheidiol cael caniatâd y plentyn neu deuluoedd biolegol cyn rhannu rhai mathau o wybodaeth, oni bai mai'r farn yw ei bod yn hanfodol o ran galluogi'r gofalwyr maeth i ddarparu gofal (a chydymffurfio, felly, â'u dyletswyddau rheoliadol).

99. Er hynny, roedd y rhan fwyaf o'r tystion, gan gynnwys AGGCC, yn pwysleisio mai diogelwch ddylai fod yn brif ystyriaeth i ni ac y dylai'r rhan fwyaf o wybodaeth gael ei rhannu fel arfer. Credwn y dylai plant a phobl ifanc gael eu cynnwys yn y broses o rannu gwybodaeth amdanynt, gan gynnwys rhoi caniatâd i rannu gwybodaeth os yw hynny'n angenrheidiol ac yn bosibl.

100. Rydym wedi nodi, â chryn ddiddordeb, enghraifft o arfer da a roddodd CLILC i ni, lle roedd awdurdod lleol yn Sir Benfro yn rhoi

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru: Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i'r Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant mewn Gofal, Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, 17 Hydref 2009, Atodiad C.

⁶⁸ Ibid.

ffurflen gyffredin i ofalwyr sy'n nodi'r cwestiynau y dylai'r gofalwr ofyn cyn cytuno i ddarparu lleoliad.⁶⁹ Credwn fod hyn yn enghraifft gymeradwy o arfer da a fyddai'n ddefnyddiol ei rhannu ag awdurdodau lleol eraill.

7. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol, sy'n argymhell eu bod yn rhoi ffurflenni cyffredin i ddarpar ofalwyr maeth, yn nodi'r cwestiynau y mae'n awgrymu y dylai'r gofalwr eu gofyn cyn cytuno i ddarparu lleoliad.

101. Roedd tystiolaeth yr ymchwiliad yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r tystion o blaid ymddiried mewn gofalwyr fel pobl broffesiynol, a gwnaeth hyn argraff arnom. Yr awgrym oedd y byddai'r proffesiynoldeb hwn yn cynorthwyo i reoli cymhlethdodau'r gwaith o rannu gwybodaeth yn fwy priodol. Dywedodd yr asiantaethau maethu yn bennaf, wrthym, y byddai gwell gwybodaeth am y plant a'r bobl ifanc yn eu cynorthwyo hefyd i sicrhau gwell proses o gydweddu â gofalwyr maeth, gan arwain at leoliadau gwell a lleoliadau mwy sefydlog.

102. Nodwyd y dystiolaeth gan y Rhwydwaith Maethu hefyd, a oedd yn awgrymu bod gweithwyr proffesiynol yn anfodlon rhannu gwybodaeth gyda gofalwyr maeth oherwydd pryderon yn ymwneud â gofynion diogelu data a gofynion cyfrinachedd, ac y byddai'n bosibl goresgyn hyn drwy gydnabod gofalwyr maeth fel rhan o'r gweithlu plant. Dywedodd y Rhwydwaith Maethu:

“Foster carers are far too often not regarded as fellow professionals by their colleagues. This lack of recognition and respect for the role affects their ability to make an impact on the lives of the children and young people they foster. In England foster carers are recognised as part of the children's workforce; they are included in the footprint of a sector skills council and in some cases are represented on corporate parenting boards and other corporate parenting groups. In Scotland, Northern Ireland and Wales the status of foster carers is less clear. They are not always regarded as members of the

⁶⁹ Y Cofnod, Para 56, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

workforce and they do not come under the footprint of a sector skills council. As a consequence they may not be included in workforce planning and may fall in between planning arrangements for the workforce and those arrangements that cover volunteers.”⁷⁰

103. Yng Nghymru, y Cyngor Sgiliau Sector priodol fyddai Cyngor Gofal Cymru. Roedd tystiolaeth gan Gymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain yn cefnogi’r cysyniad o gydnabod gofalwyr maeth fel rhan o’r gweithlu plant, drwy sicrhau eu bod yn dod o dan ‘ôl troed’ Cyngor Gofal Cymru:

“it comes back to how we view foster carers. I see them as important, valued colleagues, and they have to have that information. It is crucial that they have it, and we should trust them as professionals that we have assessed and approved to manage that information appropriately.”⁷¹

104. Felly croesawyd sylwadau Llywodraeth Cymru:

“[We are] developing a training package with the care council so that, when foster carers undertake the different levels of training for the different skill requirements, those skills can be recognised and taken to any other social care sector. So, they are getting personal development out of it as well as improving the quality of care provided to the families and children.”⁷²

8. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau y caiff gofalwyr maeth eu hystyried yn weithwyr proffesiynol yn y gweithlu gofal plant, gan gynnwys cynnal trafodaethau â Chyngor Gofal Cymru tuag at alluogi gofalwyr maeth i ddod o fewn ei gylch gwaith fel Cyngor Sgiliau Sector.

105. Rydym yn cydnabod y gall fod yn anodd cyfleu rhai mathau o wybodaeth, efallai bod angen mathau arbennig o sgiliau cyfathrebu, ac

⁷⁰ Together for Change: Policy and Recommendations, The Fostering Network, Paragraffau 1.2-1.4, ar gael yn https://www.fostering.net/sites/www.fostering.net/files/resources/policy-and-position-statements/status_and_authority_policy.pdf

⁷¹ Y Cofnod, Para 39, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

⁷² Y Cofnod, Para 154, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

efallai bod angen cael caniatâd y plentyn. Fodd bynnag, os nad oes rheswm cyfreithiol dros beidio â rhannu gwybodaeth, credwn y dylai'r wybodaeth honno, fel arfer, gael ei rhannu. Hyd yn oed pan fydd rheswm cyfreithiol penodol, fel hawl yr unigolyn o dan y Ddeddf Hawliau Dynol, credwn y dylai awdurdodau lleol geisio dod o hyd i atebion i'r rhwystrau hyn, er enghraifft drwy geisio cael caniatâd i rannu gwybodaeth. Credwn fod hyn yn hanfodol, gan fod gofalwyr maeth mewn sefyllfa fregus o beidio gwybod yr hyn nad yw'n hysbys iddynt, er gwaethaf y ffaith bod angen gwybodaeth ar ofalwyr maeth am y plant a'r bobl ifanc sy'n dod i'w gofal:

- er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniad cytbwys o ran a ydynt yn ofalwyr addas ar gyfer y plentyn;
- er mwyn gallu darparu'r gofal gorau posibl ar gyfer anghenion y plentyn unigol;
- er mwyn sicrhau diogelwch y plentyn sy'n dod i'w gofal ac, o bosibl, y bobl eraill a ddaw i gysylltiad â'r plentyn.

106. Felly roedd y Pwyllgor yn falch o benderfyniad y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, ar 14 Rhagfyr 2009, i ysgrifennu at gyfarwyddwyr y gwasanaethau cymdeithasol, penaethiaid y gwasanaethau plant a darparwyr maeth annibynnol yng Nghymru, gyda'r bwriad o egluro'r rheolau o ran rhannu gwybodaeth. Dywedodd:

“We know that the majority of local authorities already fully inform foster carers about the past history and experiences of children prior to placement. However, it is clear that in some cases, foster carers have not had access to sufficiently detailed information and have been unable to make fully informed decisions about whether they are suitable carers for that child, about how they might best provide for the needs of the child, ensure their safety and where necessary the safety of others who come into contact with the child being fostered.”⁷³

⁷³ Llythyr gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol at gyfarwyddwyr y gwasanaethau cymdeithasol, penaethiaid y gwasanaethau plant a darparwyr maeth annibynnol yng Nghymru, 14 Rhagfyr 2009

107. Credwn, hefyd, y gallai mesurau ymarferol gael eu cyflwyno i gynorthwyo Gweithwyr Cymdeithasol i wneud penderfyniadau o fan prosesau rhannu gwybodaeth.

9. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol, yn argymhell eu bod yn darparu rhestr wirio rhannu gwybodaeth a siart llif i'w gweithwyr cymdeithasol, ynghyd â'r cwestiynau y maent yn eu hawgrymu y dylai ymarferwr eu hystyried wrth benderfynu rhannu gwybodaeth gyda gofalwyr maeth ai peidio.

108. Credwn, hefyd, y dylid ystyried cyfleu gwybodaeth i deuluoedd y gofalwyr maeth eu hunain: er enghraifft eu plant eu hunain. Wrth roi gwybodaeth i ofalwyr maeth, credwn y dylid cynnal trafodaeth â'r gofalwyr maeth o ran y ffordd fwyaf effeithiol o gyfleu gwybodaeth i blant y rhieni maeth hynny. Nodir bod y Rhwydwaith Maethu wedi dweud wrthym:

“The Fostering Network Wales does a lot of work with sons and daughters’ groups. They tell us that they are not involved as they would want to be: someone is coming to live in their home and they are not consulted. Children build up relationships and nowadays, with technology as it is, when those children move on, it is very unrealistic to think that they are just going to break a relationship where they have built up friendships... not only are they not consulted when a child comes in to their home—‘I came home from school and there was a baby that I didn’t know was coming’—when the child is moved on they do not know that it is happening and they say, ‘I’ve got feelings around that child being there’. There is a big ask of young people in fostering households as foster children can choose to disclose information to them that they might not disclose to somebody else. Issues have been brought to our attention around contact: for example, birth families have arrived on the doorstep, the foster parent is out at that time and there are issues around how young people manage that. They have to be supported because they can be put in some difficult positions, therefore it is crucial that they are on board because if they are very unhappy, or if they are suffering in any way, the foster

carers will assess whether they are going to continue. When we look at recruitment, it is not just about the recruitment of foster carers, it is about retention of the ones that we have. So, sons and daughters of foster carers are a crucial group that are not consulted as they should be.”⁷⁴

10. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y rhestr wirio rhannu gwybodaeth, y cyfeirir ati yn Argymhelliad 9, yn cynnwys cyfeiriadau at ddulliau priodol o rannu gwybodaeth â phlant gofalwyr maeth.

Rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau’r llywodraeth

109. Fodd bynnag, er bod tystiolaeth gan y tystion yn awgrymu mai rhannu gwybodaeth â gofalwyr maeth yw’r prif bryder, rhaid gwella, hefyd, y broses o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau’r llywodraeth. Er enghraifft, dywedodd NSPCC CYMRU wrthym:

“There are mechanisms to share information, but, if there is no particular health issue, perhaps children’s services do not feel the need to contact health services, whereas they should be doing so.”⁷⁵

110. Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain wrthym:

“the looked-after children review is where information should be exchanged and shared. In that review, it should be ensured that everything that is needed is there. Where there is a risk of information being lost is when it is owned by peripheral organisations—for example, if a child has been referred to Flying Start. Children can often end up in a day care or voluntary setting and they can be exceedingly well known by those day care providers, but they may not have the same links with social services. Again, I think that it is for the social worker to go to find that information to get a holistic picture of

⁷⁴ Y Cofnod, Para 70, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

⁷⁵ Y Cofnod, Para 187, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 24 Tachwedd 2009

child's needs. However, whether that happens consistently is another matter."⁷⁶

111. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i rannu gwybodaeth, a dywedodd:

"We have looked at the need to share information, and it has to be shared within the health community, the education community, and right across the board. These IFSTs [sic: Integrated Family Support Teams] could be used to trial more effective ways of information sharing. That gives us an opportunity, because requirements for the IFSTs are based on statutory duties, and so it becomes a statutory duty for health to work with education, for education to work with health, for health to work with social services, and so on. This is the first time that we have been in that position, with a statutory duty for the agencies to work together, and it will produce practical examples of how we can improve the situation. I believe that these IFSTs could break down barriers within local authorities and show how they can be overcome."⁷⁷

112. Dywedwyd wrthym hefyd bod gan Awdurdod Lleol Caerffili brotocol ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn ymwneud â chyfnewid gwybodaeth iechyd am blant sy'n derbyn gofal, a bod hyn yn gweithio'n dda ar gyfer plant a phobl ifanc a gaiff eu lleoli yn yr awdurdod lleol neu mewn awdurdodau cyfagos. Roedd cyflwyniad ysgrifenedig Dr Heather Payne yn argymhell i ni:

"Every Local Authority and Trust/LHB should have written agreed interagency protocols dealing with the gathering of consent for health assessments, the sharing and maintenance of health information and personal documentation for the LAC [sic: Looked After Children] and the interagency sharing of personal information for the purposes of discharging joint responsibilities. Unnecessary bureaucratic barriers to effective working should be removed. There should be quality monitoring/control/assurance mechanisms in place, including regular interagency review of statistics, performance and

⁷⁶ Y Cofnod, Para 34, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

⁷⁷ Y Cofnod, Para 158, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

outcome data, and audit against agreed standards of health process and healthcare training.”⁷⁸

113. Credwn fod rhinweddau i’r ddau awgrym hyn.

11. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i dreialu ffyrdd mwy effeithiol o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau’r llywodraeth, drwy ymgysylltu ag ardaloedd arloesol sy’n cyflwyno’r model gwasanaethau cymorth integredig i deuluoedd.

12. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru’n cyhoeddi canllawiau statudol i bob awdurdod lleol, Ymddiriedolaeth GIG a Bwrdd Iechyd Lleol a fydd yn eu galluogi i gynhyrchu protocolau ysgrifenedig rhwng asiantaethau, sy’n ymdrin â: chasglu cydsyniad am asesiadau iechyd, rhannu a chynnal dogfennau personol a dogfennau gwybodaeth iechyd ar gyfer plant sy’n derbyn gofal; a rhannu gwybodaeth bersonol rhwng asiantaethau at ddibenion ymgymryd â chyfrifoldebau ar y cyd.

13. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol i sicrhau bod dulliau monitro/rheoli/sicrhau ansawdd ar waith wrth gynhyrchu’r protocolau y cyfeirir atynt yn argymhelliad 12, gan gynnwys adolygiadau rheolaidd rhwng yr asiantaethau o ystadegau, perfformiad a data canlyniadau, a’u harchwilio yn erbyn safonau y cytunwyd arnynt o ran prosesau iechyd a hyfforddiant gofal iechyd.

114. Wedi dweud hynny, nid yw hyn yn awgrymu y dylai pob gweithiwr proffesiynol gall gweld unrhyw wybodaeth a phob gwybodaeth am blentyn yn awtomatig. Fel y dywedodd Plant yng Nghymru:

“If children do not want school to know a lot about a certain aspect of their life, they should be able to decide which information about them is given.”⁷⁹

⁷⁸ Cyflwyniad gan Dr. Heather Payne: Ymchwiliad i Leoli Plant mewn Gofal yng Nghymru.

⁷⁹ Y Cofnod, Para 46, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

115. Yn wir, fel y dywedodd un plentyn, yn ystod ymweliad i gwrdd â phobl ifanc sydd â phrofiad o'r system gofal ym Mhen-y-bont ar Ogwr, fod angen i bobl broffesiynol 'siarad â mi cyn i chi ddweud fy nghyfrinach wrth eraill.'⁸⁰

116. Yn hytrach, credwn y dylai plant a phobl ifanc gael rheolaeth bendant dros wybodaeth, ac y dylid gofyn iddynt a ydynt am i'r wybodaeth gael ei rhannu gyda'r bobl broffesiynol - ai peidio. Pan gaiff asesiadau iechyd eu cynnal yng Nghaerffili ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, dywedodd Dr. Heather Payne wrthym ei bod yn arferiad rhoi copi o'r wybodaeth i'w gofalwr maeth a'r meddyg teulu:

“[because] we'll ask the child at the beginning of the consultation if they're happy to share this information.”⁸¹

⁸⁰ Cyfarfod â Phobl Ifanc i drafod Lleoli Plant mewn Gofal, Tud 1.

⁸¹ Y Cofnod, Para 50, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 6 Mehefin 2009

3. Adolygu Lleoliadau

Rôl y Swyddogion Adolygu Annibynnol

117. Mae'n amlwg bod gwerth mawr mewn adolygu cynlluniau lleoli, gan fod anghenion a barn y plentyn a ddaw i mewn i'r system derbyn gofal yn debygol o newid o bryd i'w gilydd. Dywedodd Voices from Care:

“when children and young people come into care, it is all new to them, so people may not be seeing the child or young person as they really are and the child or young person is not in a position to contribute. When someone asks, ‘Do you want to be in foster care long-term?’, what does that mean if you are seven or eight years old? It has no meaning for you.”⁸²

118. Mae Swyddog Adolygu Annibynnol yn gyfrifol am sicrhau y caiff cynlluniau gofal plant sy'n derbyn gofal eu hadolygu; y gwrandewir ar farn a dymuniadau'r plentyn, yn ogystal â'r teulu, y rhai sy'n gweithio gydag ef neu gyda hi ac sy'n gwneud cynlluniau ar ei gyfer ef neu ar ei chyfer hi; ac sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff anghenion y plentyn eu diwallu, mai lles y plentyn sydd bennaf ac nad yw ei hawliau'n cael eu torri.

119. Yn ystod ein hymchwiliad, roedd rhai tystion yn pryderu o ran i ba raddau y mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn annibynnol. Er enghraifft, dywedodd Gweithredu dros Blant:

“For independent reviewing officers to challenge those decisions to the nth degree is sometimes very difficult because they are being employed by the local authorities to chair the reviews. So, there is potential for conflict in that regard, which would be removed if the officers were as independent as CAFCASS is as an organisation.”⁸³

120. Yn yr un modd, awgrymodd Barnardo's Cymru:

⁸² Y Cofnod, Para 14, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 6 Hydref 2009

⁸³ Y Cofnod, Para 178, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

“If they are to be truly independent—and in a previous life I was an alleged independent reviewing officer but working for a local authority—then I would suggest that those services need to be commissioned from another organisation in order to achieve that absolute independence.”⁸⁴

121. Fodd bynnag, dywedodd yr AGGCC wrthym nad oedd wedi dod ar draws unrhyw dystiolaeth glir o ddiffyg annibyniaeth y Swyddogion. Dywedodd AGGCC:

“There was some concern that the IROs would not be strong enough or independent enough to make their voices heard. That was not a problem that we found in the review.”⁸⁵

122. Yn wir, barn y rhan fwyaf o’r dystion oedd bod gwaith y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn werthfawr iawn, gan fod y gallu ganddynt i ddylanwadu ar amrywiaeth o wasanaethau (Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd ac Addysg). Awgrymodd Voices from Care:

“As I see it, the social services team managers do not have much influence over education and health. There are three players, and none seems to be able to influence the others or say, ‘Come on; hurry up. Tell us what you are doing’. So, I think that their [IRO’s] role should be to have influence over all of those services, including adult services. They should be able to say to adult services, ‘Okay, we may not meet the criteria, but you have some responsibility for this young person’. So, I think that they need to have quite a powerful role over whatever agency is working with the young person.”⁸⁶

123. Yn wir, er na chafodd y Swyddogion Adolygu Annibynnol eu hystyried yn y bennod flaenorol, rydym yn ymwybodol y gallant chwarae rhan bwysig o ran rhannu gwybodaeth fel rhan o’u gwaith wrth gasglu gwybodaeth ar gyfer adolygu lleoliadau gan y gwahanol feysydd sy’n cwmpasu gwaith cymdeithasol, iechyd ac addysg.

⁸⁴ Y Cofnod, Para 146, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

⁸⁵ Y Cofnod, Para 186, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

⁸⁶ Y Cofnod, Para 45, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 6 Hydref 2009

124. Fodd bynnag, awgrymodd rhai tystion y byddai'n ddefnyddiol cryfhau rôl y Swyddogion Adolygu Annibynnol. Awgrymodd Voices from Care:

“The IROs should have more of a monitoring role; not where they are constantly involved with the case, but where there are decisions that involve a timescale, or assessments to get done that have been recommended to keep a placement stable. In that kind of case, they should be asking whether these things have been done, and putting a bit of pressure on if things are not happening within the timescale. You find that some independent reviewing officers seem to have a knowledge of how things have been for the young person in between reviews, and then you get others who say, ‘Let’s catch up about the last six months’, and anything could have happened in that time. They need to have a bit of a watching brief, and, in some cases, intervention may not be needed, or it may mean nothing more than a phone call to a social worker or whatever, if everything is going smoothly. However, in other cases, where people are waiting for information, then it may be that they have more of a role in bringing things together.”⁸⁷

125. Wrth wneud adolygiad, ac wrth i gynllun gofal gael ei newid, credwn ei bod yn hanfodol fod asesiadau yn symud ymlaen ac yn datblygu, gan fonitro'r penderfyniadau a gaiff eu gweithredu. Credwn y byddai hyn yn sicrhau na fydd adolygiadau'r dyfodol yn gwneud dim ond ailadrodd y rhai a ddigwyddodd yn y gorffennol, gan wneud i'r plentyn gollu diddordeb yn yr holl broses. Mae'n hanfodol na chaiff yr adolygiadau eu hystyried yn ddigwyddiadau ynysig heb ddilyniant.

126. Felly rydym yn croesawu sylwadau'r Dirprwy Weinidog bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i symud tuag at roi dyletswyddau newydd i Swyddogion Adolygu Annibynnol a chryfhau eu prosesau gweithio, a'i bod yn symud ymlaen yn hynny o beth.⁸⁸ Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym y bydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar y canlynol:

⁸⁷ Y Cofnod, Para 40, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 6 Hydref 2009

⁸⁸ Y Cofnod, Para 136, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

“giving the IRO statutory duties, which would give the service a very different perspective, and about things like the IROs making more regular visits to the children. Other people in the review process, such as the looked-after children education co-ordinator, the nurse and so on, have to be involved. Lots of other people around that have to be involved in, and contribute to, it. So, we will strengthen a whole range of things with regard to the IRO.”⁸⁹

127. Rydym yn croesawu'r fenter hon ac yn ei chefnogi, er ein bod yn ymwybodol y byddai angen yr adnoddau priodol gan fod dyddiaduron y Swyddogion Adolygu Annibynnol eisoes yn llawn.

14. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu ei gwaith sy'n ymwneud â rhoi dyletswyddau statudol i Swyddogion Adolygu Annibynnol i gadw llygad ar y gwaith o weithredu'r penderfyniadau a wneir fel rhan o'r gwaith o adolygu lleoliadau.

Ymgysylltu'n effeithiol â phlant sy'n derbyn gofal a gofalwyr maeth wrth adolygu lleoliadau

128. Clywsom dystiolaeth, hefyd, y gall rhai gweithwyr cymdeithasol golli cysylltiad rheolaidd â'r plentyn ar ôl iddo gael ei leoli i ddechrau, a chaiff rhai materion sydd angen eu datrys fynd yn angof. Mae hyn yn golygu bod adolygu lleoliadau yn effeithiol yn bwysicach fyth.

129. Fodd bynnag, roedd clywed nad yw adolygiadau o leoliadau bob amser yn hwyluso cynnwys barn a dymuniadau plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr maeth yn peri pryder i ni. Dywedodd TACT Cymru wrthym:

“Another problem with reviewing in the system is that foster carers, the very people who know the children best, are often the last people to have an input into such a review. They should be the first people to have an input. Professionals, such as social workers and others, often see themselves as having the right answers for children's care, rather than focusing on those who are looking after those children. The other issue that we have with reviews is that, when a care plan is made, it is

⁸⁹ Y Cofnod, Para 137, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

permanent or long-term and there is a lack of understanding about what that means. A review will often also look at whether a rehabilitation home is possible. We know that some families will change over a period of time, but it can be confusing and unsettling for children and for foster carers when each review even when a long-term plan has been agreed asks whether a rehabilitation home is a possibility.”⁹⁰

130. Esboniodd TACT na roddir digon o ystyriaeth, yn aml iawn, i faterion syml a fyddai'n hwyluso gwell ymgysylltiad â'r plentyn a theuluoedd:

“Too often, we see that reviews are held in inappropriate settings. We think that the child ought to be the person to choose where the review is held, and often, that should be in the foster home. Too often, the review can become overly professionalised, so that too many adults are there, and it is difficult for children to make their voices heard.”⁹¹

131. Yn yr un modd, dywedodd AGGCC:

“Sometimes the issue is not so much about attendance of all of the participants, but more to do with the fact that there is too many of them in the room. Therefore, it is about trying to get some of these formal procedures right without them overwhelming the child and the young person so that their full involvement can be assured... Young people have often said that the best IROs and chairs of reviews start with a young person's views, outcomes, and what they want. The least experienced IROs have a plan that they work to, and the child's views is somewhere in that plan. So, there is something about the expertise, knowledge and ability of the IROs, but we generally found that IROs were highly respected individuals and were very skilled and experienced... On the further improvements that are needed, young people need to be given more choice in relation to the venue for reviews and to play a fuller part in the review process.”⁹²

⁹⁰ Y Cofnod, Para 113, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

⁹¹ Y Cofnod, Para 118, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

⁹² Y Cofnod, Para 187-189, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

132. Soniodd y bobl ifanc eu hunain wrthym am bryderon tebyg. Dywedodd llawer o bobl ifanc wrthym, mewn cyfarfod anffurfiol, eu bod yn pryderu nad yw eu hymatebion i bapurau ymgynghori, sy'n gofyn beth maent am ei gael ac a gaiff eu dosbarthu cyn cyfarfodydd adolygu, yn cael eu darllen cyn y cyfarfodydd hynny. O ganlyniad, os oedd person ifanc wedi nodi nad oedd am i rywun penodol fod yn y cyfarfod adolygu, y gwir yw y byddai'r cais yn cael ei anwybyddu. Gallai hyn olygu, er enghraifft, y byddai'n cael ei holi o flaen y teulu biolegol a'r teulu maeth, er nad oedd am i'r ddau deulu fod yn bresennol.⁹³

133. Credwn y dylai cyfraniad plant sy'n derbyn gofal, mewn cyfarfodydd lleoli, fod yn realistig, ac y dylid caniatáu i'r plant a'r bobl ifanc gael rhywfaint o reolaeth dros y lleoliad, er enghraifft, a nifer y bobl fydd yn y cyfarfodydd hynny. Mae'n bosibl y gallai hynny gynnwys pobl yn y cyfarfodydd nad ydynt yn weithwyr proffesiynol, gyda grŵp o feibion a merched gofalwyr maeth yn dweud yr hoffent gael eu cynnwys mewn trafodaethau am y lleoliadau.⁹⁴ Cyflwynodd y Rhwydwaith Maethu enghraifft o arfer da i ni:

“We know from the independent reviewing officers’ report that a fifth of children do not attend their own review, where a group of people discuss the way forward for them. Would you want to sit in a room with a dozen people talking about you? I would not. A very good system has been developed to support children to make the decision about who attends. They are helped to work through it if there are people whom they think should not be there, or to ensure that those people are only there for part of the meeting or something like that. They are helped through the whole process and they get to a point—dependent on age and capability—when they can chair their own reviews. I have not been able to find an example of that happening in Wales, but I think that that is a way forward that we should be looking at. There are so many benefits to it: you are looking at citizenship, people’s participation, and allowing

⁹³ Nodyn o gyfarfod anffurfiol rhwng Aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a phobl ifanc yn y system gofal yng Nghymru, neu sydd â phrofiad ohoni, 6 Hydref 2009, tudalen 1.

⁹⁴ Y Cofnod, Para 91, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 8 Rhagfyr 2009

people to take control of their own destiny to a certain extent. I would commend that model as one that should be looked at and piloted in Wales.”⁹⁵

15. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol, yn nodi y dylai lleoliad y cyfarfod adolygu lleoliad gael ei benderfynu, fel arfer, gan y plentyn y mae ei leoliad derbyn gofal yn cael ei adolygu, gyda’r cymorth priodol.

16. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol, yn nodi mai’r plentyn y mae ei leoliad derbyn gofal yn cael ei adolygu, ddylai benderfynu pwy fydd yn y cyfarfod, gyda’r cymorth priodol.

17. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol, yn nodi y dylai ymatebion plant a phobl ifanc i bapurau ymgynghori, ac a gaiff eu dosbarthu cyn y cyfarfod adolygu lleoliad, gael eu darllen gyda digon o amser cyn y cyfarfodydd er mwyn dylanwadu ar leoliad y cyfarfod adolygu, a’r rhai fydd yn bresennol.

18. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol, er mwyn sicrhau bod papurau ymgynghori a gaiff eu dosbarthu i blant a phobl ifanc cyn eu cyfarfod adolygu lleoliad yn addas ar gyfer amgylchiadau unigol y plentyn dan sylw.

134. Rydym wedi gwneud argymhellion ychwanegol, tuag at alluogi llais y plentyn i gael ei glywed yn well a’i gefnogi drwy’r broses leoli, yn y bennod ganlynol.

⁹⁵ Y Cofnod, Para 68, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

4. Cymorth i blant a phobl ifanc, gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol

Gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc yn ystod y broses leoli

“Ni chefais erioed fynegi barn nes roeddwn yn 16 oed.”⁹⁶

- Person ifanc â phrofiad o’r system derbyn gofal yng Nghymru.

135. Dangosodd y bennod flaenorol bod angen ymgysylltu’n well â phlant a phobl ifanc mewn cyfarfodydd adolygu lleoliadau. Yn ogystal â hyn, roedd tystiolaeth yr ymchwiliad hwn hefyd yn awgrymu bod cynnwys plant a phobl ifanc, drwy gydol y broses leoli, yn dal i fethu, yn ymarferol, er gwaetha’r ffaith bod strwythurau a chanllawiau penodol wedi cael eu sefydlu i hwyluso hynny. Er enghraifft, dywedodd NSPCC CYMRU wrthym:

“the system should be based on the right of the child to be cared for, to be supported and to achieve their goals. At the moment, the system is something that happens to some young people. They are put in care; they are not involved in either the placement or the mechanism, and their views are not coming across.”⁹⁷

136. Ar ben hynny, dywedodd y plant a’r bobl ifanc eu hunain wrthym eu bod yn anfodlon â’r cysylltiad oedd ganddynt gyda’r system bresennol: roedd teimlad nad oedd neb yn gwrando arnynt, nad oeddynt yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd adolygu ac nad oeddynt, bob amser, yn cael eglurhad iawn o’r hyn oedd yn digwydd.

137. Er enghraifft, mewn cyfarfod anffurfiol, dywedodd un person ifanc wrthym:

“she had no voice and or no choice in her placement. She commented that, when pregnant, she had been introduced to a

⁹⁶ Nodyn o gyfarfod anffurfiol rhwng Aelodau’r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a phobl ifanc yn y system gofal yng Nghymru, neu sydd â phrofiad ohoni, 6 Hydref 2009, tudalen 1.

⁹⁷ Y Cofnod, Para 101, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 29 Tachwedd 2009

carer, she had stated that she did not feel they got on, her wishes were ignored and not taken into account, and she had to go on the placement anyway. She stated that the placement broke down, and the young person ended up homeless and was concerned about the implications of being homeless for herself and her child, and her homelessness being used to say she was unable to provide for her child. She considered that if her opinion that did not get on with the carer had been listened to in the first place, the situation of homelessness could have been avoided.”⁹⁸

138. Pwysleisiodd y dystion wrthym y dylai plant a phobl ifanc fod yn rhan o'r penderfyniadau a wneir am eu lleoliad o ddechrau'r broses. Dylid ymgynghori â hwy, gwranddo arnynt a'u hysbysu o'r hyn sy'n digwydd. Ychydig iawn y mae plant a phobl ifanc yn ei ddeall am yr hyn sy'n digwydd iddynt a'r opsiynau sydd ar gael iddynt, yn arbennig o ran y lleoliad cyntaf, felly mae'n hanfodol eu bod yn cael eglurhad o hyn. Dywedodd Plant yng Nghymru:

“It is not just about ascertaining the wishes and feelings of the child; it is about ensuring that the child is clear about the information, understands the information and what is happening, and understands the future options open to them. Much of this will take time, particularly given that we are talking about different groups of children, including very young children and disabled children. Practitioners need the additional skills and capacities to spend time. With asylum-seeking children, a pool of interpreters will also be needed, so there are additional challenges.”⁹⁹

139. Rydym yn cydnabod nad yw bob amser yn bosibl cynnwys plant a phobl ifanc yn effeithiol mewn penderfyniadau lleoliad mewn achosion brys ond, fel y nodwyd yn ein pennod gyntaf, gellir defnyddio adolygiad yn fuan wedyn er mwyn caniatáu i blant a phobl ifanc gael cyfle i fynegi barn. Credwn y bydd cynnwys plant a phobl ifanc yn

⁹⁸ Nodyn o gyfarfod anffurfiol rhwng Aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a phobl ifanc yn y system gofal yng Nghymru, neu sydd â phrofiad ohoni, 6 Hydref 2009, tudalen 1.

⁹⁹ Y Cofnod, Para 59, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

gwella effeithiolrwydd y broses leoli ei hun, o nodi sylwadau NSPCC CYMRU

“if we involve children and young people, we will get a better understanding of their placements. Last Monday, some of the young people were saying that they wanted to be in residential care. They were much older and wanted to be prepared for independent living. They did not want someone acting as their mum or dad; they said quite clearly that they have a mum or dad. With residential care, staff were there to ensure that they were safe and they let them get on with it. That shows that no two young people are the same. We have to involve them, get it right and make it genuine. It is also about a cultural change within the service to make it genuine and to embed it.”¹⁰⁰

140. O ganlyniad, croesawyd sylwadau'r Dirprwy Weinidog:

“byddwn ... yn ymgynghori yn gynnar y flwyddyn nesaf ar ddeddfu yma yn y Cynulliad er mwyn sicrhau gofyniad cyfreithiol i bob un sy'n ymwneud â lles a dyfodol plant wrando ar leisiau'r plant hynny.”¹⁰¹

19. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'i gwaith tuag at lunio deddfwriaeth i sicrhau ei bod yn ofyniad cyfreithiol bod pawb sy'n gweithio ym maes lles plant, a dyfodol plant, yn gwrando ar eu lleisiau hwy.

141. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth a gafwyd gan dystion, yn awgrymu bod polisiâu a chanllawiau eisoes yn eu lle i hwyluso plant a phobl ifanc i gymryd rhan, ond had ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol, ac roedd hyn yn peri pryder i ni. Dywedodd Plant yng Nghymru ei bod eisoes yn amlwg:

“[It is] imperative and clear in the policies and guidance—both the Children Act 2004 and the regulations that came out last year on the placement of children—that the participation and involvement of children have to be central to all these

¹⁰⁰ Y Cofnod, Para 144, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 24 Tachwedd 2009

¹⁰¹ Y Cofnod, Para 130, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

decisions. It is very clear. We go back again to the implementation gap in many years.”¹⁰²

142. Credwn y byddai'n bosibl cynorthwyo plant a phobl ifanc i gymryd rhan fwy effeithiol mewn penderfyniadau am eu proses leoli drwy gael gwared â'r gred y soniodd rhai tystion amdani fod angen i blant a phobl ifanc allu cyflwyno rhesymeg dechnegol neu gymhleth ar gyfer gweithredu eu dymuniadau. Dywedodd Voices from Care:

“There is this idea that young people have to have a really strong argument, when sometimes their argument is ‘I like these people’, or ‘I’m not happy; I want to move’, or ‘I can’t see my family as much as I want to’. Those kinds of reasons that young people might have are pushed aside a bit.”¹⁰³

143. Credwn ei bod yn annerbyniol anwybyddu'r mathau hynny o bryderon, er eu bod yn ymddangos yn simplistig, gan ei bod yn bosibl mai'r materion hyn, mewn gwirionedd, yw'r unig beth sy'n bwysig i'r bobl ifanc eu hunain. Credwn y gall gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod pryderon plant a phobl ifanc yn cael yr ystyriaeth briodol o fewn y broses o wneud penderfyniad am y lleoliad. Dywedodd Plant yng Nghymru wrthym:

“advocacy is crucial because many children who find themselves in such a situation have had difficult upbringings and difficult lives, and are extremely disempowered in the first place. So, recourse to advocacy is crucial. To have somebody there to support them, to ensure that they understand, and that their wishes and feelings are carried forward is vital.”¹⁰⁴

144. Credwn, hefyd, y gall gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol helpu i ddatblygu gallu plant a phobl ifanc i ddod yn fwy dylanwadol o fewn y broses o wneud penderfyniad. Dywedodd Voices from Care wrthym:

“Advocates may say, ‘Okay, you want A. You may not get A at this point; perhaps it might be better to ask for B and work towards A’. In the decision making, I tell young people, ‘This is not your only chance and it should not be your only chance’; it

¹⁰² Y Cofnod, Para 58, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

¹⁰³ Y Cofnod, Para 55, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 6 Hydref 2009

¹⁰⁴ Y Cofnod, Para 61, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

should be part of a process so that young people learn how to get involved.”¹⁰⁵

145. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gafodd ei chasglu yn yr ymchwiliad hwn yn dangos bod angen i eiriolaeth chwarae mwy o ran yn y system. Awgrymodd y tystion nad yw gwasanaeth eiriolaeth yn cael ei dderbyn o hyd ym mhobman fel rhan annatod o'r broses leoli, a'r eiriolwr, yn aml, yw'r person diwethaf i glywed am y cyfarfodydd. Dywedodd Voices from Care:

“There is still a lot of opposition to advocacy. As an advocate, you are usually the last person to know about a meeting, so the likelihood is that you will not be able to attend. There is a lot of uncertainty about the role of the advocate in supporting children and young people through the care process. Advocates are clear that they will do whatever the child or young person wants them to do, help them with whatever they want help with, and support them with whatever they need support with. I think that other people feel that there should be limits on that, when there should not be... When a foster carer has a review meeting, local authorities, along with an advocacy provider, could consider informing the advocate of that meeting beforehand so that they have time to listen to the views of the child or young person about their placement, to help them to complete the form. That would not be much extra work if the advocate was already working with the child or young person. Such a system could be quite useful to the advocate as a tool. For example, when they meet the young person, the purpose of the visit could be to seek that young person's views on the foster placement.”¹⁰⁶

20. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau statudol, sy'n nodi bod eiriolwr y plentyn yn cael ei hysbysu pan fydd cyfarfod adolygu lleoliad yn cael ei drefnu er mwyn rhoi digon o amser i: wrando ar farn y plentyn neu'r person ifanc am y lleoliad, a chynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i gwblhau'r ymatebion i bapurau ymgynghori.

¹⁰⁵ Y Cofnod, Para 25, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 6 Hydref 2009

¹⁰⁶ Y Cofnod, Para 50 a 67, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 6 Hydref 2009

146. Awgrymodd y tystion wrthym fod angen i wasanaethau eiriolaeth fod ar gael yn ehangach, ac felly hefyd y cynllun ymwelydd annibynnol, a gaiff ei werthfawrogi'n fawr gan y plant a'r bobl ifanc sy'n ei ddefnyddio.

147. Pwysleisiodd ein tystion hefyd bod perthynas gadarnhaol rhwng plant sy'n derbyn gofal a gweithwyr proffesiynol yn ffactor allweddol wrth benderfynu a fydd llais y plentyn yn cael gwrandawriad effeithiol. Credwn fod angen sgiliau ar weithwyr proffesiynol i gyfathrebu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc a gwranddo arnynt, ynghyd â'r amser i ymrwymo i hyn. Awgrymodd Cymdeithas Mabwysiadu a Meithrin Prydain:

“It is more about the skills of practitioners, and I do not think that people are managing to spend that time with them... The statutory visiting interval for a child is six weeks, but if you are going to see a child who has had disruptive relationships in life, who has no reason to trust adults at all, and who has been through a system that he or she possibly does not understand, you will not manage to build a relationship with them by seeing them every six weeks. All the processes in the world are no replacement for someone who really gets to know them.”¹⁰⁷

148. Yn yr isadran isod, 'Cymorth i weithwyr cymdeithasol', rydym wedi nodi sut y credwn y byddai'n bosibl eu galluogi i gael mwy o amser i feithrin perthynas effeithiol â'r plant a'r bobl ifanc. Nid plant a phobl ifanc mewn lleoliadau derbyn gofal yn unig y cyfeiriwn atynt yma, gan ein bod yn cydnabod efallai y byddai meibion neu ferched gofalwyr maeth, ynghyd â gofalwyr maeth eu hunain, am gymryd rhan mewn trafodaethau am leoliadau maeth.

Gwranddo ar leisiau plant a phobl ifanc ar ôl eu cyfnod mewn lleoliad derbyn gofal

149. Cytunodd nifer o dystion ei bod yn bosibl y gallai'r broses leoliadau gael ei gwella drwy roi mwy o ystyriaeth i brofiadau'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi bod drwy'r system leoliadau. Awgrymodd Plant yng Nghymru:

¹⁰⁷ Y Cofnod, Para 48, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

“It is quite hard for us in Children in Wales to say exactly how it is out there because who is talking to the young people to find out? Perhaps one thing that we could improve is exit interviews. Let us find out a bit more from young people about what it was like so that we can improve.”¹⁰⁸

150. Gallai cyfweiliadau fel hyn ar ddiwedd lleoliadau helpu i ganfod materion sydd o bryder o fewn y system. Er enghraifft, dywedodd un person ifanc wrthym ei fod wedi gadael lleoliad derbyn gofal a bod y gofalwr blaenorol wedi cymryd cyfrifoldeb dros rywun newydd.

“I can’t see my old foster carer, which is stupid because it’s not normal to break the bond that has developed between a young person and their Foster carer. I am lucky that one of my old foster carers still phones me up from time to time to see how I am and how I am doing, and we meet up for a cup of tea.”¹⁰⁹

151. Fodd bynnag, gallai cyfweiliadau fel hyn ar ddiwedd y lleoliad ddatgelu gwybodaeth gadarnhaol hefyd. Er enghraifft, dywedodd y Rhwydwaith Maethu wrthym, eu bod wedi clywed y rhan fwyaf o bobl ifanc yn siarad yn gadarnhaol am fod mewn gofal maeth.¹¹⁰

152. Roedd llawer o dystion yn pryderu hefyd nad oedd digon o sylw yn cael ei roi i’r gwaith o gefnogi rhieni a oedd, eu hunain, wedi bod drwy’r system derbyn gofal. Dywedodd TACT:

“Statistically, we see that children from the looked-after system in Wales are 66 times more likely than their peers to have their children removed, and at an earlier age, and placed into the care system... We are not educating our children to look after their children. Often, that is because of the difficulties that they have had, and we must remember that more than 70 per cent of the children who come into the care system are there because of abuse and neglect.”¹¹¹

¹⁰⁸ Y Cofnod Para 55, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

¹⁰⁹ Nodyn o gyfarfod anffurfiol rhwng Aelodau’r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a phobl ifanc yn y system gofal yng Nghymru, neu sydd â phrofiad ohoni, 6 Hydref 2009, tudalen 3.

¹¹⁰ Y Cofnod, Para 13, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

¹¹¹ Y Cofnod, Para 109 a 111, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

153. Awgrymodd Plant yng Nghymru y gallai mwy o ffocws gael ei roi ar gasglu data sy'n ymwneud â llwyddiannau pobl ifanc o gefndiroedd derbyn gofal, er mwyn gallu cynorthwyo pobl ifanc eraill sy'n gadael y system derbyn gofal.

21. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau statudol i sicrhau bod awdurdodau lleol, fel arfer, yn cynnal cyfweiliadau ar wahân gyda'r bobl ifanc sy'n gadael y system derbyn gofal yng Nghymru; eu gofalwyr maeth; a'u brodyr a chwiorydd maeth.

Cymorth i ofalwyr maeth

154. Fel y nodir ym mhennod 1, roedd llawer o dystion yr ymchwiliad hwn yn credu nad oes digon o ofalwyr maeth yng Nghymru, ac mae hyn yn ei dro'n cyfyngu ar yr opsiynau sydd ar gael wrth wneud penderfyniadau wrth geisio cydweddu anghenion y plentyn â lleoliadau posibl. Roedd tystiolaeth yr ymchwiliad hwn yn awgrymu'n glir bod angen mwy o ofalwyr maeth yn gyffredinol, a gofalwyr arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion penodol.

22. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch fawr i hwyluso recriwtio gofalwyr maeth.

155. Fodd bynnag, cytunodd y tystion fod ymdrech wedi cael ei gwneud yn y gorffennol i recriwtio darpar ofalwyr maeth drwy ymgyrchoedd hyrwyddo, ond awgrymwyd ei bod yn bosibl bod dulliau eraill ar gael i wneud y 'gwaith' hwn yn fwy deniadol. Er enghraifft, dywedodd Dr Carolyn Sampeys:

“There have been all sorts of campaigns by voluntary organisations as well as local authorities, but we still seem to be desperately short of foster carers... Perhaps we could do so by increasing the profile and stating what a wonderful service it is. If we could engage with foster carers on the planning for the children in their care, it would increase the kudos of being a foster carer.”¹¹²

Trin gofaluwr maeth fel 'gweithwyr' proffesiynol

156. Yn wir, pe bai gofaluwr maeth yn cael eu hystyried yn fwy fel rhan o'r tîm sydd o amgylch y plentyn, ac yn cael mwy o awdurdod ac ymddiriedaeth i wneud penderfyniadau, awgrymodd llawer o dystion y byddai mwy o bobl yn cynnig gofal maeth. Mae trafodaeth i'w chael o ran i ba raddau y dylai gofaluwr maeth gael eu hystyried yn 'weithwyr proffesiynol', o gofio sialensiau'r gwaith. Mae'n ymddangos fel pe bai'r tueddiad tua'r cyfeiriad hwn ac roedd llawer o'n tystion yn cymeradwyo hyn. Fodd bynnag, rhybuddiodd rhai ei bod yn bwysig nad ydym yn colli gafael ar y ffaith bod disgwyl i ofaluwr maeth (yn arbennig gofaluwr hirdymor) garu'r plant a'r bobl ifanc a gaiff eu maethu ganddynt, yn hytrach na chadw pellter proffesiynol. Er enghraifft, mynegodd Voices from Care y pryder:

“Young people like people who are homely, caring, fun, and all the things that professionals cannot be. They need to be recognised for their skills, but I do not think that we need to make them into the kind of professional who builds a barrier, comes in to do the job and who has no emotional connection.”¹¹³

157. Yn gyntaf, dywedodd Barnardo's Cymru:

“We are concerned that the demands on foster carers have increased, but often they are not viewed as part of the professional team by childcare social workers. They are excluded from receiving information. They are not seen as part of a team around the child, which would be an approach which would work far better.”¹¹⁴

158. Ond, wrth wneud gofal maeth yn faes proffesiynol, esboniodd:

“it is crucial that we do not frighten off a wedge of the population by overprofessionalising foster care—those with the intuitive skills, who need and want to look after young people. If you ask most people who come forward what their motivation is to be a foster carer, the sense that it is a passport into some

¹¹³ Y Cofnod, Para 34, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 6 Hydref 2009

¹¹⁴ Y Cofnod, Para 122, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

form of career or training or whatever is going to be fairly low on their agenda. Their need to offer something back to children or young people and their view that they and their extended family can give support is generally the main motivating factor and, indeed, should be the main motivating factor. We need to get that balance right so that we do not scare off a whole wodge of the population.”¹¹⁵

159. Yn yr un modd, dywedodd CLILC:

“There is often a debate about whether they undertake their duties as a good, caring, loving family, or whether it is a professional role. Having looked at the evidence, I think that the complexity of the children placed requires professional skills—a skill base broader than that necessary for dealing with your own family circumstances. Fostering takes you into the complexities of care planning, health treatment, and therapeutic services, which are often required for children in the looked after children’s system.”¹¹⁶

160. Cytunwn â’r sylwadau hyn, a chredwn na ddylai ‘cariad’ a ‘phroffesiynoldeb’ fod yn gysyniadau eithriadol i’w gilydd. Rydym yn bendant nad ydym am i ofalwyr maeth gael ‘pellter proffesiynol’ oddi wrth y plant a’r bobl ifanc y maent yn gofalu amdanynt. Yn wir, dywedodd y Grŵp Meibion a Merched Gofalwyr Maeth wrthym:

“you feel as though they need that little bit extra to come into our family, for us to say, ‘We accept you’. They need more love and support from our parents at the start, but once they get more confident in our family and start to speak to everyone, things get back to normal.”¹¹⁷

161. Credwn, yn hytrach, yn union fel y disgwyliwn i ofalwyr maeth – yn arbennig lleoliadau hirdymor - feithrin perthynas gariadus â’u plant, ei bod yn hollol iawn iddynt gael y grym, y parch a’r hyfforddiant fel ‘gweithwyr’ proffesiynol i sicrhau bod eu plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. O ganlyniad, argymhellwyd gennym, yn gynharach yn yr adroddiad hwn, y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau

¹¹⁵ Y Cofnod, Para 124, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

¹¹⁶ Y Cofnod, Para 20, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

¹¹⁷ Y Cofnod, Para 164, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 8 Rhagfyr 2009

y caiff gofaluwr maeth eu hystyried yn rhan broffesiynol o'r gweithlu gofal plant.

Swyddogaethau a chyfrifoldebau gofaluwr maeth o ddydd i ddydd

162. O ganlyniad i ystyried gofaluwr maeth yn 'weithwyr' proffesiynol, credwn ei bod yn briodol y dylai gofaluwr maeth gael y cyfrifoldeb a'r awdurdod i wneud penderfyniadau priodol dros blant a phobl ifanc sydd yn eu gofal. Rydym yn ymwybodol, hefyd, y bydd angen gwneud penderfyniadau am amgylchiadau unigol uwchben y cydbwysedd priodol o gyfrifoldeb ac awdurdod (rhwng gofaluwr maeth a gweithwyr cymdeithasol) i gael eu gwneud yn ôl pob achos unigol. Rydym yn cytuno â sylwadau Voices from Care:

“Carers need to know what decisions they can make, but that needs to be on an individual basis, because you get some young people who are very established with their foster carers and get on well with them and trust them. In that situation, they would probably feel that their foster carers would make the right decisions. However, you get other young people who do not connect with their foster carers, and their social worker is a safety net for them because they are sharing the decision making and the information. We do not see that it should be the same for everyone.”¹¹⁸

163. Er hynny, mae'n ymddangos bod arferion amrywiol iawn ledled Cymru o ran y cyfrifoldebau y mae awdurdodau lleol yn fodlon eu rhoi i ofaluwr maeth. Dywedodd Gweithredu dros Blant wrthym:

“The Welsh Assembly Government issues advice to local authorities about children being able to stay overnight with friends. Some authorities will happily work with that, but other authorities do not have that system and you must go back to get permission for every thing. Again, it is about personalities, personnel and individuals—it is about people rather than systems... The guidance is clear that foster carers can and

¹¹⁸ Y Cofnod, Para 33, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 6 Hydref 2009

should be able to make those decisions, but some local authorities choose not to interpret it in that way.”¹¹⁹

164. Roedd y sylwadau hyn yn peri pryder i ni, gan fod y tystion yn gyffredinol yn cytuno y dylai gofalwyr maeth, fel arfer, gael yr awdurdod i wneud penderfyniadau rhianta arferol - penderfynu a fyddai'n iawn i'r plentyn aros yn nhŷ ffrind dros nos, neu fynd ar wibdaith gyda'r ysgol, er enghraifft. Dywedodd un person ifanc wrthym, mewn cyfarfod anffurfiol ei bod yn teimlo cywilydd bod angen i'r heddlu wirio ei ffrindiau cyn ei bod yn cael aros dros nos yn eu cartrefi. Credwn fod hyn yn amlwg yn annerbyniol ac mae'n creu stigma, a dywedodd Angela Burns AC, un o aelodau'r Pwyllgor, “you must feel like you have a neon light over you, flashing ‘IN CARE.’”¹²⁰

165. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru, yn y gorffennol, wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar aros dros nos ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal maeth: *Guidance on the Delegation of Decisions on ‘Overnight Stays’ for Looked After Children*. Mae'r canllawiau hyn yn statudol, a chawsant eu cyhoeddi fel cylchlythyr o dan adran 7 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970*, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu o dan ganllawiau cyffredinol Llywodraeth Cymru (Gweinidogion Cymru ers *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*). Roedd crynodeb o gynnwys y cylchlythyr yn datgan:

“2. There is no statutory duty for Criminal Record Bureau (CRB) checks to be carried out on adults in a private household where a looked after child may stay overnight. CRB checks should not normally be sought as a precondition of an overnight stay.

3. Decisions on overnight stays should in most circumstances be delegated to foster parents and residential care staff, and arrangements for such decisions written into the Placement Plan or Foster Placement Agreement.

4. Looked after children should as far as possible be granted the same permissions to take part in such acceptable age

¹¹⁹ Y Cofnod, Para 167 a 169, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

¹²⁰ Nodyn o gyfarfod anffurfiol rhwng Aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a phobl ifanc yn y system gofal yng Nghymru, neu sydd â phrofiad ohoni, 6 Hydref 2009, tudalen 2.

appropriate peer activities as would reasonably be granted by the parents of their peers.

5. Only where there are exceptional reasons should the permission of the responsible authority be required or restrictions placed on overnight stays.”

166. Credwn ei bod yn bosibl, fodd bynnag, nad yw awdurdodau lleol, mewn rhai amgylchiadau, wedi dehongli'r canllawiau hyn fel y cawsant eu bwriadu'n wreiddiol.

23. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn egluro a diwygio'r canllawiau presennol, lle y mae angen hynny, sy'n ymwneud ag awdurdod gofalwyr maeth i wneud penderfyniadau rhianta dyddiol, gan gynnwys mewn cysylltiad ag aros dros nos a gwibdeithiau'r ysgol.

Ailystyried cytundebau ysgrifenedig sy'n ymwneud â swyddogaethau a chyfrifoldebau dyddiol

167. Roedd rhagdybiaeth ymysg rhai o'r bobl ifanc y daethom i gysylltiad â hwy yn ystod ein cyfarfodydd anffurfiol, y byddai gweithiwr cymdeithasol newydd yn amharu ar awdurdod a chyfrifoldeb y gofalwr maeth er mwyn “gwneud eu marc”,¹²¹ ac roedd hyn yn peri pryder i ni.

168. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, ei bod yn werth ailystyried cytundebau ysgrifenedig sy'n ymwneud â swyddogaethau a chyfrifoldebau dyddiol gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol. Caiff y cytundebau hyn eu gwneud, fel arfer, pan gaiff y lleoliad ei drefnu, ond fel yr esboniodd Barnardo's Cymru:

“although they outline everybody's responsibilities, part of the issue is about whether those responsibilities are revisited throughout the placement. Regulations and guidance are much clearer now on what should be in placement agreements, what we need to be looking at, the role and responsibility of the child's social worker, the foster carer's supervising social

¹²¹ Nodyn o gyfarfod anffurfiol rhwng Aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a Phobl Ifanc yn y system gofal yng Nghymru, neu sydd â phrofiad ohoni, 6 Hydref 2009, tudalen 2.

worker and the foster carer... From my experience, it seems that as placements move along, supervising social workers for the foster carers have to challenge local authority childcare workers who may change a number of times. There may be something about ensuring that foster care agreements are revisited. This is particularly an issue with longer term placements because as placements go on, the child just wants to become a normal part of that family and they do not want to experience some of the interventions in relation to them being the looked-after child. So, foster carers move along and carry out day-to-day care, and social workers change. Revisiting foster care agreements on an annual basis is something that we look at in Barnardo's. When we review foster carers annually, we talk to them again about their roles and responsibilities because carers need to be reminded of that."¹²²

24. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol i sicrhau y caiff cytundebau gofal maeth eu hadolygu'n flynyddol.

Cydnabyddiaeth

169. Awgrymodd y tystion hefyd y byddai modd gwella'r gydnabyddiaeth a roddir i ofalwyr maeth. Yn y cyd-destun hwn, roedd y Pwyllgor yn croesawu sylwadau'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol y byddai Llywodraeth Cymru yn:

“consult with local and other stakeholders on the phased implementation of... a new framework for remuneration, training and approval of foster carers.”¹²³

170. Yn benodol, cytunodd tystion pe bai cronfa o lefydd gwag gyda gofalwyr maeth yn cael ei chreu, fel bod gwneuthurwyr penderfyniadau yn gallu gwneud dewisiadau effeithiol wrth leoli plentyn, yna byddai angen i ryw fath o ffi gael ei thalu i gadw gofalwyr maeth wrth gefn os na fyddai ganddynt blentyn ar leoliad. O dan y trefniadau

¹²² Y Cofnod, Para 134-135, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

¹²³ Tystiolaeth ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru, CYP(3)-12-09 - Papur 2 - 22 Medi 2009.

cydnabyddiaeth presennol, awgrymodd Plant yng Nghymru y byddai gofalwyr heb blentyn am gyfnod yn colli diddordeb:

“become disillusioned and may well seek alternatives such as going back into employment.”¹²⁴

171. Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Mabwysiadu a Meithrin Prydain wrthym:

“if people do that and are paid a fee, which is reasonable given the work that they do, it becomes difficult for them to have a vacancy.”¹²⁵

172. Yn amlwg, ni fyddai'n fwriad gennym i ofalwyr maeth ddod yn rhan o'r proffesiwn er mwyn yr arian a dim arall. Fodd bynnag, fel y dywedodd y Rhwydwaith Maethu wrthym:

“There is no evidence that the people who are doing it partly because they need to bring in some income to their families are less loving or are providing a lower quality of care. In fact, some of the evidence suggests that the reverse may be true... The available evidence is that people do not foster for the money. They should not foster for the money, and we do not want them to foster for the money, but people do need to bring in an income, so providing an income is a challenge.”¹²⁶

25. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn hwyluso rhyw fath o gydnabyddiaeth i ofalwyr maeth hyfforddedig nad oes ganddynt blentyn ar leoliad maeth dros dro.

Cymorth a hyfforddiant

173. Fodd bynnag, nodwyd tystiolaeth hefyd y gall hyfforddiant a chymorth da fod yn fwy hanfodol, hyd yn oed, o ran cadw a recriwtio gofalwyr maeth na'r wobr ariannol. Er enghraifft, dywedodd Barnardo's Cymru wrthym:

¹²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig: Cyflwyniad ysgrifenedig gan Plant yng Nghymru.

¹²⁵ Y Cofnod, Para 25, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

¹²⁶ Y Cofnod, Para 29-30, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

“financial remuneration is important, but the ultimate issue is that, when somebody picks up a telephone and wants advice or support, they have a consistent relationship with a worker and can talk through those difficult issues that Pat alluded to with young people. That is going to be one of the main issues that will bring people back into the profession.”¹²⁷

174. Yn yr un modd, awgrymodd y Rhwydwaith Maethu:

“Some of the surveys that have been undertaken into those that are fee-paying show foster carers clearly saying that they would not want to be paid more if it meant that they were less well trained or less well supported.”¹²⁸

175. Croesawodd y Pwyllgor, felly, sylwadau Llywodraeth Cymru:

“we are working with the Care Council for Wales. Core training is available locally, but we are currently working on a national package. I mentioned earlier the new framework that we are developing on how we can reward different groups of people and encourage them to become foster carers, from the family and friends level to the more professional foster carer level.”¹²⁹

176. Nodwyd awgrym gan Barnardo’s Cymru hefyd:

“access to advice and support should be available to foster carers, residential workers and children and young people themselves. Such timely provision could prevent an escalation of crisis situations which can result in placement breakdown. Foster carers tell us that if they had access to such advice and support, it could have more impact on whether they continue with both individual placements or generally as a carer, than the financial remuneration.”¹³⁰

177. Rydym yn ymwybodol bod y Rhwydwaith Maethu ar hyn o bryd yn darparu llinell gyngor gofal maeth yn ystod y dydd, dros y ffôn a drwy e-bost, ac a gaiff ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, credwn y gallai’r gwasanaeth gwerthfawr hwn gael ei ymestyn

¹²⁷ Y Cofnod, Para 126, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

¹²⁸ Y Cofnod, Para 30, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

¹²⁹ Y Cofnod, Para 154, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

¹³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig: Cyflwyniad ysgrifenedig gan Barnardo’s Cymru.

ymhellach i gynnwys gwasanaeth testun a bod ar gael y tu allan i oriau'r dydd.

26. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys sefydliadau gofal maeth, gofalwyr maeth a phlant maeth wrth ddatblygu ac ehangu'r ddarpariaeth ac argaeledd llinell gyngor gofal maeth, gan gynnwys gwasanaethau ffôn, e-bost a thestun ar gyfer gofalwyr maeth.

Cymorth i weithwyr cymdeithasol

"where it does work well and where you have a good social worker, foster carers are telling us that the relationship is fantastic and the young people tell us that, but that does not happen all the time."¹³¹

- Plant yng Nghymru

178. Yn wreiddiol, nid oedd cylch gwaith ein hymchwiliad yn ystyried cymorth penodol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Fodd bynnag, cawsom gryn dystiolaeth gan dystion a oedd yn nodi bod capasiti gwaith cymdeithasol yn cael effaith ar effeithiolrwydd y broses leoli. Yn ein pennod gyntaf, soniwyd bod yr amser prin a gaiff ei dreulio gyda phlant a phobl ifanc a gaiff eu lleoli mewn lleoliadau derbyn gofal yn ei gwneud yn anodd i gysylltiadau effeithiol gael eu meithrin, neu i weithwyr cymdeithasol wneud asesiadau cywir o anghenion y plant hynny. Dywedodd gwasanaeth mabwysiadu a maethu Taith Newydd wrthym:

"Young people say, 'What is the point of developing a relationship with my social worker, they will not be there next month, or next year?' So, the relationship, which is what social work is built on, has broken down."¹³²

179. Roedd tystiolaeth yr ymchwiliad hwn yn awgrymu nad oes digon o adnoddau ar gael mewn adrannau gwaith cymdeithasol, gyda'r staff yn gorfod ymdopi â nifer uchel o lwythi achosion, a dim digon o amser i wneud y gwaith. Cawsom wybod, hefyd bod nifer uchel o swyddi

¹³¹ Y Cofnod, Para 51, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

¹³² Y Cofnod, Para 131, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

gwag,¹³³ trosiant staff uchel a lefelau uchel, o ganlyniad, o staff dibrofiad. Dywedodd Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain wrthym:

“There is a high vacancy rate in front-line social work teams. However, there is also a culture of turnover, which means that there is no stability within teams. That is different from 10 years ago in social work, when, in a sense, people came into a team, and were mentored and supported by experienced workers. There is reluctance among social workers to go into frontline childcare now for obvious reasons. It is not the best and easiest place to be and it does not get the best press.”¹³⁴

180. Yn yr un modd, dywedodd Plant yng Nghymru wrthym am lawer o weithwyr cymdeithasol yng Nghymru:

“Many of them are extremely frustrated by the lack of time and capacity to do their job properly and effectively and to spend quality time with children and families, which is the reason why they went into the profession in the first place. Finally, on top of that, the media at the moment is very negative about the service, so it does not seem to be an attractive profession for people to want to go into.”¹³⁵

181. Yn wir, rydym yn ymwybodol y gall y sylw mawr a roddir i achosion yn y wasg, fel achos Baby P, gael effaith enfawr ar ysbryd gweithwyr cymdeithasol ledled y DU, a gall hyn wneud iddynt deimlo'n ddiwerth o ran y gwaith a gaiff ei wneud ganddynt yn ein cymdeithas. Credwn y gall Llywodraeth Cymru gynorthwyo i fynd i'r afael â'r mater allweddol hwn. Fel y nododd AGGCC, rydym hefyd yn ymwybodol o'r canlynol:

¹³³ Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym: “ADSS and Care Council for Wales piloted a project with local authorities to collect data on the demand from employers for newly qualified social workers. The results were tentative but indicated a vacancy rate amongst child care social workers of 11.9%.” Tystiolaeth ysgrifenedig: Cyflwyniad gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol.

¹³⁴ Y Cofnod, Para 13, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

¹³⁵ Y Cofnod, Para 31, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

“Any measure that raises the esteem of the people who work with those children will also indirectly benefit the children and young people concerned.”¹³⁶

27. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar ffyrdd o herio cynrychioliadau'r cyfryngau ac argraffiadau'r cyhoedd o weithwyr cymdeithasol, fel eu bod yn cynnig amgylchedd lle mae ffocws cadarnhaol ar yr hyn a gaiff ei gyflawni gan weithwyr cymdeithasol a'r cyfraniadau a wneir ganddynt.

182. Roedd tystiolaeth yr ymchwiliad hwn hefyd yn dangos rhagdybiaeth bod staff profiadol yn symud yn rhy gyflym i swyddi rheoli, lle y caiff eu sgiliau eu colli, a bod gweithwyr cymdeithasol yn treulio gormod o amser ar weinyddu, heb dreulio digon o amser ar gysylltiad uniongyrchol â phlant sy'n derbyn gofal, yn arbennig ers i'r swydd ddatblygu yn un o reoli achos. Dywedodd NSPCC Cymru wrthym:

“The role of the social worker has changed dramatically over the years. They are now case managers rather than working directly with children and families. Therefore, much of the work that they would have done is now put out or outsourced. That means that social workers are no longer spending the time directly with children. So, they do not understand or hear what children say and the role of the social worker is to work more with the family to try to resolve the issues that have led to the child going into care; perhaps the child is then left and their needs are not concentrated on. So, those things that are aspirational and that we would expect the social worker to support and drive forwards for the child are not happening in the way that they used to.”¹³⁷

183. Awgrymodd rhai tystion wrthym fod angen i weithwyr cymdeithasol edrych o'r newydd ar eu swyddogaethau craidd o weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal a datblygu'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Dylai hyn gael ei gydnabod gyda'r cyfleoedd, er enghraifft, am ddyrchafiad i statws ymarferwr ymgynghorol er mwyn sicrhau na chaiff y sgiliau a'r profiadau hynny eu colli o'r

¹³⁶ Y Cofnod, Para 177, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

¹³⁷ Y Cofnod, Para 122, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 24 Tachwedd 2009

gwasanaethau rheng flaen. Mae'r trosiant uchel o weithwyr cymdeithasol yn rhwystro cysylltiadau da, sefydlog rhag cael eu meithrin gyda phlant sy'n derbyn gofal. Dywedodd Jenny McMillan, Cyfarwyddwr Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain (BAAF) Cymru wrthym:

“This is a personal opinion and not that of the British Association for Adoption and Fostering, but there has to be recognition of expertise, so that people stay within a role and do not move through the management structure. To move through or progress your career in social work, people have always had to move through a management structure, but we need to recognise that we need very skilled practitioners on the front line. Senior practitioners exist in many local authorities but, very often, you will find that they are still doing a quasi-managerial role, and still doing some supervision, although that is appropriate as regards mentoring and that sort of role. However, people move through management structures or into other parts of the department. We need to see the role with looked-after children as absolutely vital and encourage practitioners to remain in it... I think that a consultant social work role would be excellent as it would keep people who have a passion for the work in the field, and they would share their passion with colleagues.”¹³⁸

184. Yn yr un modd, dywedodd TACT Cymru wrthym:

“Increasingly, we see good social workers moving through management systems and being taken away from the very thing that they are good at, namely supporting families and young people. We would much rather see a move similar to that taken in the health service, namely a move towards having consultants. A consultant can be promoted and can take on managerial responsibility but, at the same time, he or she becomes an expert in the field and continues to be a clinician. So, we would like to see a system in which social workers come to be seen much more as consultants, and a career structure

¹³⁸ Y Cofnod, Para 73, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

developed that would allow people to develop their ideas and remain committed to practice.”¹³⁹

185. Felly, roeddem yn croesawu tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog:

“The ‘Council’ will shortly consult on a career pathway for social workers to provide a route for social workers to gain advancement and remain in practice by introducing a new role of consultant social work practitioner. This will be available to people with specified levels of experience who have completed the accredited Post Qualifying social work training. The role will be tested as part of our new policy for Integrated Family Support Teams (IFST), to be pioneered in three areas of Wales from next year.”

28. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd rhan mewn trafodaethau â Chyngor Gofal Cymru ac awdurdodau lleol, tuag at greu a threialu swydd Ymgynghorydd Gwaith Cymdeithasol. Rhagwelwn y byddai'r swydd hon yn cael y gydnabyddiaeth a'r parch priodol, y byddai'n cynnwys mentora cydweithwyr iau, ond y ffocws pennaf fyddai gwaith proffesiynol gyda phlant a phobl ifanc.

186. Roedd y sylwadau gan y tystion bod y baich biwrocraidd ar weithwyr cymdeithasol yn cyfyngu ar yr amser y gallant ei dreulio gyda'r plant a'r bobl ifanc hefyd yn peri pryder i ni. Er enghraifft, dywedodd CLILC wrthym:

“The WLGA has had early discussions with the Welsh Assembly Government about a review of the independent care system because everyone welcomes the philosophy, but, in practice, it is turning out to be incredibly bureaucratic. People tell me that if they do it properly, they can have in excess of 25 forms, with different exemplars. Social workers are skilled and expensive resources; they should not be spending their time filling in all of these forms at a computer—if they can get to one that works. There is a need for balance, because we do not want to

¹³⁹ Y Cofnod, Para 127, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

go back to the days when we did not record and could not provide evidence, but we have gone too far the other way now and we would therefore welcome some recommendations on looking at connectivity and the balance of recording against front-line care and support, and being with the child.”¹⁴⁰

187. Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain wrthym:

“Social workers increasingly seem to spend their time at computers, filling in forms, or doing paperwork, and less time with the children.”¹⁴¹

29. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r system derbyn gofal, gyda'r bwriad o ganfod a all rhai mathau o wybodaeth gael eu cofnodi gan gydweithwyr gweinyddol, yn hytrach na'r gweithwyr cymdeithasol eu hunain.

188. Credwn, hefyd, bod gwerth pwysleisio pa mor werthfawr yw i weithwyr cymdeithasol feithrin cysylltiadau â phlant sydd mewn lleoliadau derbyn gofal, ynghyd â rhieni maeth, ond, hefyd, deuluoedd ehangach y rhieni maeth.

30. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod gan y gweithwyr cymdeithasol, fel rhan o'u hyfforddiant, gyfle i siarad â meibion a merched grwpiau gofalwyr maeth.

¹⁴⁰ Y Cofnod, Para 53, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 20 Hydref 2009

¹⁴¹ Y Cofnod, Para 48, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

5. Materion eraill sy'n deillio o leoli plant a phobl ifanc mewn lleoliadau derbyn gofal

Gwasanaethau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

189. O gofio proffiliau iechyd gwael plant sy'n derbyn gofal, pwysleisiodd y tystion pa mor bwysig yw gwasanaeth iechyd arbenigol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn. Mae gan nyrsys arbenigol sy'n gweithio o fewn y gwasanaethau hyn swyddogaethau hybu iechyd ac eiriolaeth a gallant fod yn berson proffesiynol sefydlog ym mywydau rhai plant sy'n derbyn gofal. Er enghraifft, dywedodd Dr Heather Payne wrthym:

“[Looked after children] are considerably worse off in practically all measures of health outcomes: access to healthcare, the outcomes relating to their general health, and their educational wellbeing. Mental and physical health will have an impact on educational success and attainment. We know that care leavers are much more deprived than other children, and much more likely to have a teenage pregnancy, to be unemployed, and to be imprisoned. So, there is a range of measures that tell us that looked-after children, on the whole, do far worse than other children... The nurses negotiate a time and a place where the young person will be comfortable, so it plugs them back into the system. It is personal advocacy. It is about the children understanding that they are worth it and helping them to understand how to ask for and how to access services. That is a life skill that is very important for them. It is about the importance of replacing their lack of parenting. I know that that point about corporate parenting has been taken on board, very widely— namely that we have to be in the place of parents—but this is at the sharp end, and you really have to put your money where your mouth is and make sure that you are standing up for these children.”¹⁴²

190. Yn yr un modd, dywedodd Dr Carolyn Sampeys wrthym:

¹⁴² Y Cofnod, Para 11 a 18, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 6 Mehefin 2009

“The fantastic thing about the nurses is that they are flexible and they give the children what they want. They empower the children and young people to access health services, whether that is registering with a GP or changing their GP, if they are not happy, registering with a dentist, accessing the optician or going to the family planning clinic or the genito-urinary medicine clinic. They will take them there if they wish, but the ultimate aim will be for them to be able to access those services when they leave care. The other part of the nurses’ role is to provide help, support and advice to the foster carers and the social workers. The health promotion element can come from all angles, not just from direct work with the child or the young person.”¹⁴³

191. Dywedodd tystion eraill y gallai nyrsys plant sy’n derbyn gofal gynorthwyo i rannu gwybodaeth, a dywedodd y Rhwydwaith Maethu:

“When the looked-after children’s nurse undertakes the health assessments, all the foster carers know the nurse for that authority and, if someone changes places, they ring the nurse to say, ‘Johnny Bloggs has come to stay with me and I do not have any health information for him’, and it gets transferred quickly. That does not happen everywhere.”¹⁴⁴

192. Fodd bynnag, nid yw gwasanaethau arbenigol fel hyn ar gael ym mhob rhan o Gymru ac mae amrywiaeth yn y gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer plant sy’n derbyn gofal oherwydd anghydfod ac ansicrwydd ynglŷn â sicrwydd cyllid. Dengys y dystiolaeth bod angen i wasanaethau arbenigol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal fod ar gael yn ehangach a bod angen arweinydd meddygol penodol ym mhob ardal. Awgrymodd Dr Heather Payne:

“Every Trust/LHB in Wales should have a named Doctor for Looked After Children with the BAAF/RCPCH recommended protected time to offer the necessary clinical consultation AND manage the infrastructure of information systems, processes

¹⁴³ Y Cofnod, Para 153, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 24 Tachwedd 2009

¹⁴⁴ Y Cofnod, Para 17, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 22 Medi 2009

and protocols and interagency liaison, audit and monitoring.
The current NPHS role provides no clinical input at all.”¹⁴⁵

31. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau yn sefydlu y dylai pob Bwrdd GIG a Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru enwebu Meddyg Plant sy'n Derbyng Gofal Chymdeithas Mabwysiadu a Meithrin Prydain (BAAF) / Coleg Pediatrig ac Iechyd Plant Brenhinol (RCPCH) o fewn amser diogelu penodol i gynnig yr ymgynghoriad clinigol angenrheidiol a rheoli'r seilwaith o systemau, prosesau a gweithdrefnau gwybodaeth a thrafodaethau, gwaith archwilio a monitro rhwng asiantaethau.

32. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau, yn sefydlu y dylai pob Bwrdd GIG a phob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru gael nyrs arbenigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Lleoliadau y tu allan i'r sir

193. Clywsom dystiolaeth glir gan y tystion bod lleoliadau y tu allan i'r sir yn achosi problemau yn aml i blant sy'n derbyn gofal, a gall olygu eu bod yn colli cysylltiad â rhwydweithiau cymdeithasol ac effaith andwyol ar eu haddysg. Gall hyn effeithio, hefyd, ar pa mor aml y maent yn gweld eu gweithwyr cymdeithasol a'u heiriolwyr, a gall y ddarpariaeth gofal iechyd fod yn fwy o broblem na hynny. Dylai'r ardal lle y lleolir y plentyn fod yn gyfrifol am y ddarpariaeth iechyd ond mae tystiolaeth yr ymchwiliad hwn yn awgrymu bod y cyfathrebu rhwng yr awdurdod sy'n trefnu'r lleoliad a'r gwasanaethau yn yr ardal sy'n derbyn y plentyn yn wael, yn aml, a gall cyllid gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal achosi problem. Er enghraifft, dywedodd Dr Heather Payne wrthym:

“When children from Caerphilly, for example, are placed in Pembrokeshire—and there might be perfectly good reasons for that—they will go from my area's waiting list for speech therapy and occupational therapy to the bottom of the new area's waiting list. There is no mechanism to stop that, because

¹⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig: Cyflwyniad gan Dr Heather Payne: Ymchwiliad i Leoli Plant mewn Gofal yng Nghymru.

that is how the system works. If they need psychiatric or psychological input, then it may be that children and adult mental health services are configured differently in the new location, so the service that they were getting may not be handed over. There is no obligation to liaise with service providers in the new location, and that work would not be funded from my job plan. Often, I do not even know that a client has moved, because there is not necessarily any consultation in planning the healthcare. So, there is a certain disconnect there as well... My solution to that particular issue would be to say that, wherever a child lives, that is where their health services should come from. That would be the easiest solution. We would have to be careful that some areas were not taking a hit from having children placed there and left without any planning or preparation. There would have to be some financial exchange, but if the accountability was fair and square, we could hand it all over to a nominated person who could ensure that the child gets the right services.”¹⁴⁶

194. Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain:

“Distance is significant if children are placed out of area. We talked about the difficulty in seeing children, and that becomes more of a challenge. For the child or young person, as I said, if it is an exceptional placement, and will meet their specific, identified needs, then there is some value in an out-of-area placement; but otherwise, you are taking the child or young person away from their family, community, environment, and everything that is familiar to them. We know that children in the looked-after system are likely to return to their family of origin at some point. When you look at the leaving-care population you start to see particular challenges for children who have been placed some distance away, because those children have lost any kind of infrastructure that they had, and that becomes a real problem.”¹⁴⁷

¹⁴⁶ Y Cofnod, Para 71 a 73, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 9 Mehefin 2009

¹⁴⁷ Y Cofnod, Para 83, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 23 Mehefin 2009

195. Dywedodd Plant yng Nghymru, hefyd, fod y materion hyn yn gwaethygu eto ar gyfer plant a gaiff eu lleoli y tu allan i Gymru:

“Health systems do not necessarily work across boundaries very well. If you go over the border into England, it is even harder. The frequency of visits and the education of the young person suffers. Links with home and community, friends and school are all broken. So, the child is actually in isolation. What we do know is that we have seen a large number—almost a half—of young people who have gone through the looked-after system gravitating back to their original environment once they leave care. So, it is really a dislocation for those young people. We are very supportive of moves to try to look at keeping young people as close to their families and communities as possible... When an advocate has to go all the way to Scotland, as I saw in a case not long ago, to try to engage with a child, I really do not need to elaborate on the challenges to that worker, and on the impact on that child of being placed miles away from their birth parents, their network, their friends. That has an impact on their health, education and emotional wellbeing.”¹⁴⁸

196. Gall anghytundeb godi ynghylch cyfrifoldeb dros rai gwasanaethau eraill: er enghraifft, clywsom dystiolaeth bod anghydfod wedi codi ynghylch talu am addasiadau yn y cartref y tu allan i'r sir, a oedd am gymryd plentyn sy'n derbyn gofal. Cawsom dystiolaeth ysgrifenedig sy'n dweud mai'r awdurdod sy'n derbyn y plentyn sy'n gwneud y penderfyniad terfynol am addysg plentyn sy'n derbyn gofal, ac y dylai gofalywyr maeth, sy'n aml yn teimlo nad yw'r system yn rhoi grym iddynt, gael mwy o awdurdod dros faterion sy'n ymwneud ag addysg. Cawsom dystiolaeth, hefyd, bod nifer fawr o blant a phobl ifanc o Loegr yn cael eu lleoli yng Nghymru, ac mae hyn yn golygu mwy o bwysau ar wasanaethau lleol.

197. Mae'r nifer o leoliadau y tu allan i'r sir wedi cynyddu fel cyfran o'r holl leoliadau o 8 y cant ar 31 Mawrth 1998 i 29 y cant ar 31 Mawrth 2009. Fodd bynnag, roedd dystiolaeth gan y bartneriaeth sy'n gweithredu'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant yn nodi bod y gronfa ddata yn dechrau helpu i leihau'r nifer o leoliadau y tu allan i'r sir. Dywedodd Beverlea Frowen wrthym:

¹⁴⁸ Y Cofnod, Para 78 a 80, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2009

“there is a myth that a lot of Welsh children are being placed at excessively long distances—that is not true. However, there is, between systems, the ability for us to have a look at that. That is certainly part of the management of information that the Welsh Assembly Government is very interested in looking at, because it has never had this information either—even something as basic as this report and the map of where provision was across Wales. I know that everything always leads to another question, does it not? However, when you think how basic the system was a couple of years ago, when people could not even tell you that there were 3,800 care settings in Wales, and yet we are spending £140 million a year on just under 4,000 children.”¹⁴⁹

198. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod yn dystiolaeth hon yn groes i'r hyn a oedd yn cael ei honni Dr Carolyn Sampeys:

“According to the data released on 31 March 2009 from the Office for National Statistics—and the Welsh Assembly Government logo features on the bottom, so it must be right... The number of looked-after children on the exact day of 31 March 2009 was 4,704. In foster placements outside local authority boundaries, there were 1,041 looked-after children... I am not sure whether things have improved since 31 March 2009. I know that there is a will to stop children from going out of county... I know that locally, in Cardiff and the Vale, fewer children are going out of county and the authorities are thinking very hard about those children that need to go out of county.”¹⁵⁰

199. Credwn fod dros 1000 o blant sy'n derbyn gofal ac a gaiff eu lleoli y tu allan i'r sir yn ymddangos fel pe bai hyn yn cynrychioli llawer o blant a phobl ifanc yn cael eu lleoli gryn bellter o'u cartrefi. Rydym yn ymwybodol y gallai rhai o'r lleoliadau hyn fod wedi cael eu gwneud ychydig dros y ffin sirol, ac na fyddent, felly, yn cael eu hystyried yn bellter gormodol o gartref y plentyn. Rydym yn cydnabod, hefyd, y bydd angen i ganran fach o blant sy'n derbyn gofal gael eu lleoli y tu

¹⁴⁹ Y Cofnod, Para 84, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 24 Tachwedd 2009

¹⁵⁰ Y Cofnod, Paragraffau 174, 175 ac 184, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 24 Tachwedd 2009

allan i'r sir, yn ddieithriad, er mwyn diwallu eu hanghenion o ran gwasanaethau penodol ac, o bosibl, i'w lleoli'n fwriadol oddi wrth rhai unigolion arbennig.

200. Er hynny, credwn y dylid rhoi mwy o ymdrech i leihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir, a thrwy weithredu argymhellion yr adroddiad hwn, credwn ei bod yn bosibl cynyddu'r capasiti lleol, ac y bydd hyn yn cyfrannu at lai o leoliadau y tu allan i'r sir.

33. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol i sicrhau bod dulliau clir, archwiliadwy ac effeithiol a llinellau atebolrwydd clir ar gyfer trosglwyddo gofal, gan gynnwys gofal iechyd, pan gaiff plentyn ei leoli y tu allan i'r sir, ac ar draws unrhyw ffiniau gwasanaethau mewnol.

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-cyp-home.htm>

9 Mehefin 2009

Dr Heather Payne,
Deon Cyswllt

Prifysgol Caerdydd

23 Mehefin 2009

Jenny Macmillan,
Cyfarwyddwr

Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Cymru

Julie Gillbanks,
Cyfarwyddwr
Cynorthwyol

Gweithredu dros Blant, Cymru

Stacey Burnett,
Rheolwr Prosiect

Maethu Taith Newydd

Anne Roberts
Rheolwr Prosiect

Gwasanaethau Preswyl Sir Ddinbych

7 Gorffennaf 2009

Catriona Williams,
Prif Weithredwr

Plant yng Nghymru

Sean O'Neill,
Cyfarwyddwr Polisi

Plant yng Nghymru

Anne Marie Browning,
Rheolwr
Gwasanaethau Plant

Barnardo's

David Beard,
Cyfarwyddwr
Cynorthwyol
Gwasanaethau Plant

Barnardo's

Pat Duke,
Cyfarwyddwr
Cynorthwyol
Gwasanaethau Plant

Barnardo's

22 Medi 2009

Freda Lewis,
Cyfarwyddwr (Cymru)

Rhwydwaith Maethu Cymru

Robert Tapsfield,
Prif Weithredwr

Rhwydwaith Maethu Cymru

Gwenda Thomas,
Y Dirprwy Weinidog
dros Iechyd a
Gwasanaethau
Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Donna Davies,
Pennaeth y Tîm Plant
Hawdd i'w Niweidio,
Iechyd a
Gwasanaethau
Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru

6 Hydref 2009

Carol Floris,
Swyddog Cymorth a
Chynghori

Voices from Care

Matthew Taylor,
Uwch Swyddog
Hyfforddiant

Voices from Care

20 Hydref 2009

Beverlea Frowen,
Cyfarwyddwr Gwella
Iechyd a
Gwasanaethau
Cymdeithasol

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Albert Heaney,
arweinydd strategol
dros blant

Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau
Cymdeithasol

Kevin Williams,
Prif Weithredwr

Yr Ymddiriedolaeth Plant a Phobl Ifanc

Dot Jones,
Cyfarwyddwr
Gwasanaethau Plant,
Cymru

Yr Ymddiriedolaeth Plant a Phobl Ifanc

Bryan Isaac,
Arolygydd

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau
Cymdeithasol Cymru

Katy Young, Pennaeth
Dadansoddi a Gwella
Gwasanaeth

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau
Cymdeithasol Cymru

24 Tachwedd 2009

Beverlea Frowen,
Cyfarwyddwr
Gwasanaethau
Cymdeithasol a
Gwella Iechyd

Llywodraeth Leol Cymru

Andrew Stephens,
Cyfarwyddwr yr Uned
Ddata Llywodraeth
Leol

Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant
(CCSR)

Phillip Franklin,
Pennaeth TGCh

Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant
(CCSR)

Colette Limbrick,
Cyfarwyddwr
Cynorthwyol

NSPCC

Simon Jones,
Rheolwr Polisi a
Materion Cyhoeddus,
Cymru

NSPCC

Dr Carolyn Sampeys,
Paediatregydd
Cymunedol / Meddyg
a Enwebwyd ar gyfer
Mabwysiadu, Maethu
a Phlant sy'n Derbyn
Gofal, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Caerdydd a'r
Fro

Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain

8 Rhagfyr 2009

Karen Williams,
Grŵp Rhwydwaith
Maethu

Grwpiau Meibion a Merched Gofalwyr Maeth -
Rhwydwaith Maethu Cymru

Sean Edmunds,
Gweithiwr
Cymdeithasol y
Rhwydwaith Maethu
Alanna Jones -
Person Ifanc
Sophie Hunt -
Person Ifanc
Annie Hunt -
Person Ifanc
Nicole Davies -
Person Ifanc
Lauren Jones -
Person Ifanc

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-cyp-home.htm>

Ruth Sinfield	Gwasanaethau Plant Blaenau - Gwent	CYP(3) PCC 01
David Beard ac Ann-Marie Browning	Barnardo's Cymru	CYP(3) PCC 02
Keith Towler	Comisiynydd Plant Cymru	CYP(3) PCC 03
	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	CYP(3) PCC 04
Jessica Jones	Cwmni Cydweithredol Gofal Maeth Caerdydd (Cardiff Foster Care Co-operative)	CYP(3) PCC 05
Christine Abbas	Gofalydd Maeth	CYP(3) PCC 06
Anna Bird	Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro	CYP(3) PCC 07
Wendy Keidan	Gofal Pathway (Pathway Care)	CYP(3) PCC 08
Louis Thomas	Cymdeithas Grŵp Rhanbarthol o Seicotherapyddion Plant ar gyfer Cymru	CYP(3) PCC 09
Sharon Lovell	Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol	CYP(3) PCC 10
Cerys Morling	Rhondda Cynon Taf	CYP(3) PCC 11
Gwenda Thomas, Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Llywodraeth Cymru	CYP(3) PCC 12
Freda Lewis	Rhwydwaith Maethu Cymru	CYP(3) PCC 13
Nia Lloyd	NSPCC	CYP(3) PCC 14
Carol Floris	Voices from Care	CYP(3) PCC 15

Jeremy Coleman	Swyddfa Archwilio Cymru	CYP(3) PCC 16
Keith Bowen	Plant Anabl yn Cyfri Cymru	CYP(3) PCC 17
Trudy Davies	Bwrdd Iechyd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr	CYP(3) PCC 18
Dot Jones	Yr Ymddiriedolaeth Plant a Phobl Ifanc	CYP(3) PCC 19
Beverlea Frowen	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru	CYP(3) PCC 20
Katy Young	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	CYP(3) PCC 21
	Canllawiau ar gyfer gofal amgen i blant (Guidelines for the alternative care of children) Mehefin 2009	CYP(3) AWE 01
Gwenda Thomas, Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Llywodraeth Cymru	CYP(3) AWE 02 CYP(3) AWE 2a CYP(3) AWE 2b CYP(3) AWE 2C CYP(3) AWE 04
Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau		CYP(3) AWE 03
Freda Lewis	Rhwydwaith Maethu Cymru	CYP(3) AWE 05 CYP(3) AWE 05a
Katy Young	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	CYP(3) AWE 06